Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
56/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
17/07/2024

# Mapio'r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae

## Adroddiad Cam 2

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-285-6

Mapio’r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae
Adroddiad Cam 2

Alma Economics

| |
|---|
| Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2024). *Mapio'r Gweithlu Gofal Plant a Chwarae Adroddiad Cam 2.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 56/2024.<br>Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/mapior-gweithlu-gofal-plant-chwarae-yng-ngyhmru-adroddiad-cam-2 |

Safbwyntiau’r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:
Enw: Abigail Ryan
Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: research.childrenandfamilies@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


1. Crynodeb gweithredol ..... 5
2. Cyflwyniad ..... 9
3. Dull ymchwil ..... 11
4. Dadansoddiad o ddata'r arolwg ..... 16
5. Canfyddiadau o grwpiau ffocws a chyfweliadau ymgysylltu â'r gweithlu ..... 37
6. Rhagamcanu'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae ..... 52
7. Dadansoddiad o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ..... 60
8. Casgliadau ..... 69

Atodiad A: Canllaw pwnc cyfweliad ar gyfer rheolwyr lleoliadau ac ymarferwyr ..... 71

Atodiad B: Canllaw pwnc grŵp ffocws ar gyfer rheolwyr lleoliadau ac ymarferwyr ..... 74

Atodiad C: Holiadur yr arolwg ..... 78

Atodiad D: Rhagdybiaethau modelu ..... 89

**Rhestr o Dablau**

Tabl 1: Lefelau cymhwyster uchaf yn ôl y math o ymatebydd ............................................ 23
Tabl 2: Plant ar y llyfrau yn ôl math o leoliad ..................................................................... 52
Tabl 3: Nifer y gweithwyr gofal plant a chwarae yn ôl lleoliad yn 2023 ............................... 53
Tabl 4: Nifer y plant ar restrau aros ..................................................................................... 54
Tabl 5: Rhagamcan o nifer y plant ar y llyfrau ..................................................................... 55
Tabl 6: Newid a ragwelir yn y galw am weithwyr ................................................................. 56
Tabl 7: Gweithlu ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg gan y raddfa sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ........................................................................ 57
Tabl 8: Gweithlu ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg gan y raddfa dadleoli ........................................................................................................................ 58
Tabl 9: Nifer y cymwysterau a ddechreuwyd, fesul awdurdod lleol lle'r addysgwyd y dysgwr a lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022) ........................................................................................... 67

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1: Ymatebion i'r arolwg yn ôl math o ymatebydd ...................................................... 16
Ffigur 2: Ymatebion i'r arolwg yn ôl math o leoliad ............................................................. 17
Ffigur 3: Iaith a ddefnyddir yn y lleoliad ............................................................................ 18
Ffigur 4: Oed yr ymatebwyr ................................................................................................ 19
Ffigur 5: Sgiliau iaith Gymraeg yr ymatebwyr ..................................................................... 20
Ffigur 6: Amlder defnyddio Cymraeg yn ôl y math o ymatebydd .......................................... 21
Ffigur 7: Tâl yr awr yn ôl y math o ymatebydd .................................................................... 22
Ffigur 8: Lefelau cymwysterau mewn gofal plant a gwaith chwarae .................................... 24
Ffigur 9: Cymwysterau gofal plant a ddelir yn ôl y math o ymatebydd ................................. 24
Ffigur 10: Cymwysterau gwaith chwarae a ddelir yn ôl y math o ymatebydd ....................... 25
Ffigur 11: Boddhâd personol yr ymatebwyr ......................................................................... 26
Ffigur 12: Rhesymau dros anfodlonrwydd [ymhlith ymatebwyr a nododd anfodlonrwydd yn flaenorol] ................................................................................................................... 27
Ffigur 13: Rhesymau dros adael y sector gofal plant a chwarae ......................................... 28
Ffigur 14: Staff amser llawn mewn lleoliadau ..................................................................... 30
Ffigur 15: Staff rhan-amser mewn lleoliadau ...................................................................... 30
Ffigur 16: Nifer y staff gwrywaidd a benywaidd sy'n gweithio fesul lleoliad ......................... 31
Ffigur 17: Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl mewn lleoliadau .......................................... 32

Ffigur 18: Canran y gweithlu sy'n siarad tipyn o Gymraeg mewn lleoliadau ........................33
Ffigur 19: Swyddi staff gwag presennol mewn lleoliadau....................................................33
Ffigur 20: Nifer y swyddi gwag yn y 12 mis diwethaf mewn lleoliadau ................................34
Ffigur 21: Nifer y staff sydd wedi gadael lleoliadau yn y 24 mis diwethaf............................34
Ffigur 22: Nifer y cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae a ddechreuwyd, yn ôl lefel cymhwyster (yn ôl blwyddyn galendr)....................................................................61
Ffigur 23: Deilliannau cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae a ddechreuwyd, yn ôl lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022) ...........................................................................................................62
Ffigur 24: Cyfraddau cwblhau ar gyfer cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae, yn ôl lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022) ...........................................................................................................63
Ffigur 25: Nifer y cymwysterau yn ôl math (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng 2018 a 2022) ...........................................................................................................63
Ffigur 26: Cyfran a nifer y cymwysterau a ddechreuwyd yn ôl lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ôl lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022) ..........................................................................64
Ffigur 27: Cyfran a nifer y cymwysterau a ddechreuwyd yn ôl lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ôl blwyddyn (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022) ..........................................................................65
Ffigur 28: Cyfran a nifer y cymwysterau a ddechreuwyd yn ôl lefel gallu dysgwyr yn y Gymraeg, yn ôl lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022) ..........................................................................66
Ffigur 29: Cyfran a nifer y cymwysterau a ddechreuwyd yn ôl lefel gallu dysgwyr yn y Gymraeg, yn ôl blwyddyn (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022) ..........................................................................66

**Acronymau**

| | |
|---|---|
| **ADY** | Anghenion dysgu ychwanegol |
| **AGC** | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| **GCC** | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **LLWR** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| **NDNA** | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| **PACEY** | Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| **SASS** | Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth |
| **SGC** | Safonau Gofynnol Cenedlaethol |
| **SYG** | Swyddfa Ystadegau Gwladol |

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cefndir

1.1 Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i ddarparu chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o ansawdd da i holl blant Cymru. Er mwyn cyflenwi’r ymrwymiad hwn, mae’n hanfodol cael darlun cywir o’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.

1.2 Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i fapio’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru er mwyn deall cyfansoddiad gweithlu’r sector yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ymchwil hwn yn cynnwys (i) dadansoddi ffynonellau data i ddeall cyfansoddiad presennol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae; (ii) rhagamcanu anghenion gweithlu'r dyfodol mewn perthynas â newidiadau disgwyliedig mewn galw a pholisi; a (iii) ymgysylltu ag aelodau o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae trwy arolwg, cyfweliadau a grwpiau ffocws i ddeall eu profiadau yn y sector. Mae’r adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau ail gam yr ymchwil, gan ganolbwyntio ar ragamcanion y gweithlu a chanlyniadau’r ymarfer ymgysylltu â’r gweithlu.

## Dull

1.3 Cynhaliwyd gwaith maes gydag ymarferwyr a rheolwyr gofal plant a chwarae a oedd yn ceisio darparu ystod o fewnwelediadau i weithlu’r sector. Fel rhan o hyn, lansiwyd arolwg o ymarferwyr a rheolwyr yn y sector gofal plant a chwarae rhwng Awst a Medi 2023. Gwahoddwyd aelodau’r gweithlu i ymateb drwy gylchlythyrau a ddosbarthwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a gwahoddiadau e-bost i bob lleoliad cofrestredig gyda manylion cyswllt sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan AGC. Hefyd, gwahoddwyd ymatebwyr yr arolwg i gymryd rhan mewn grŵp ffocws neu gyfweliad i archwilio eu barn yn fanylach. Ymatebodd cyfanswm o 624 o aelodau’r gweithlu i’r arolwg, ac aeth 29 o’r rhain ymlaen i gymryd rhan mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws. Fe wnaethom hefyd ddatblygu model i ragamcanu’r galw am weithwyr gofal plant a chwarae, yn seiliedig ar newidiadau polisi a senarios disgwyliedig.

## Crynodeb o’r canfyddiadau

1.4 Yn ystod y gwaith maes, amlygodd y cyfranogwyr yn gyson fod geithio gyda phlant yn brofiad gwerth chweil a soniwyd am y dylanwad mawr y mae eu gwaith yn ei gael ar ddatblygiad plant. Dywedodd dros 65 y cant o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn teimlo’n “fodlon” neu’n “fodlon iawn” eu bod yn gweithio yn y sector. Dywedwyd

hefyd bod y galw yn ddigonol ar draws y rhan fwyaf o leoliadau, gyda llawer o leoliadau â rhestrau aros. Dywedodd sawl cyfranogwr fod eu lleoliadau wedi ehangu eu niferoedd o staff a phlant yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

1.5 Fodd bynnag, disgrifiodd pob cyfranogwr y sector fel un oedd mewn cyflwr “pryderus” neu “ddrwg”, gan bwysleisio gan amlaf bryderon yn ymwneud â chyllid, cyflog a thâl, recriwtio a chadw, yn ogystal â diffyg cydnabyddiaeth o’u gwaith. Er enghraifft, dywedodd 15 y cant o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn “anfodlon” neu’n “anfodlon iawn” â’u gwaith yn y sector. Adroddodd sawl cyfranogwr deimladau o ddiffyg gwerthfawrogiad a diffyg cefnogaeth yn ystod pandemig Covid-19, gan nodi cynnydd mewn “trawma” ymhlith plant a “phryder” ymhlith aelodau staff dros y cyfnod hwn.

1.6 Pan ofynnwyd iddynt am gyflwr y sector, dywedodd nifer o ymatebwyr fod recriwtio a chadw aelodau o’r gweithlu yn her benodol, gyda bron i 70 y cant o ymatebwyr yr arolwg yn nodi o leiaf un swydd wag yn eu lleoliad. Gwelwyd bod adroddiadau o drosiant staff uchel yn effeithio'n negyddol ar blant tra'n cynyddu'r pwysau ar gydweithwyr a rheolwyr lleoliadau. Dywedodd un rhan o bump o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn ystyried gadael y sector yn y 12 mis nesaf. Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr a oedd yn ystyried gadael y sector eu bod yn gwneud hynny oherwydd cyflog a thâl.

1.7 Dywedodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr nad oeddent yn teimlo bod eu gwaith yn cael ei adlewyrchu yn eu cyflog nac mewn unrhyw fuddion ychwanegol pan yr oedd rheini’n berthnasol. Amlygodd mwyafrif y cyfranogwyr fod tâl annigonol yn rheswm craidd i staff adael y sector. Roedd gweithwyr gofal plant a chwarae’n aml yn adrodd eu bod yn cael yr isafswm cyflog neu ychydig yn uwch na’r isafswm cyflog yr awr, nad oedd, yn eu barn nhw, yn adlewyrchu eu hatebolrwydd a’u cyfrifoldeb dros blant ifanc, na gofynion corfforol ac emosiynol eu swyddi a oedd yn cynnwys oriau gwaith hir. Teimlwyd mai cyflogau uwch fesul awr a delir mewn mannau eraill - er enghraifft, gan gadwyni archfarchnadoedd neu swyddi cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion - oedd y ffactor unigol mwyaf o ran staff yn gadael y sector. Mae cyflog a thâl hefyd yn cael ei ystyried yn rhwystr allweddol i recriwtio staff; fodd bynnag, nododd 43 y cant o ymatebwyr yr arolwg hefyd bod gofynion cymwysterau uchel yn rhwystr.

1.8 Pan ofynnwyd iddynt am gymwysterau, tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at heriau o ran sicrhau bod myfyrwyr sy'n gobeithio ymuno â'r sector gofal plant a chwarae yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i wneud hynny. Dywedwyd nad oedd rhai cyrsiau yn cwmpasu'r holl elfennau hyfforddiant gorfodol. Mae rhwystrau i staff presennol rhag ennill cymwysterau pellach yn cynnwys y broblem o gyrsiau'n cael eu cynnal gyda'r nos ac ar benwythnosau, pan allai fod gan aelodau'r gweithlu gyfrifoldebau gofalu ychwanegol am eu teuluoedd. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd yr angen am system fwy diweddar o gymwysterau wedi'u hariannu a hyfforddiant gorfodol fel modd o gymell a galluogi pobl i ymuno â'r gweithlu.

1.9 Pan holwyd yr ymatebwyr am eu defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd, nodwyd ystod eang o lefelau cynefindra â siarad Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg. Serch hynny, roedd rheolwyr lleoliadau'n aml yn trafod anawsterau sylweddol wrth recriwtio a chadw aelodau staff sy'n siarad Cymraeg. Roedd hyn yn gysylltiedig â methu â darparu tâl digonol i gystadlu am staff sy'n siarad Cymraeg â sectorau eraill sydd angen sgiliau Cymraeg, megis ysgolion ac awdurdodau lleol. At hynny, dywedodd rheolwyr lleoliadau hefyd fod diffyg cymhelliant o ran tâl ychwanegol i staff presennol ennill cymwysterau Cymraeg.

1.10 Nododd ymatebwyr, yn enwedig mwyafrif o'r gweithwyr chwarae, bryderon yn ymwneud ag ansicrwydd swydd a chontractau tymor byr, yn amodol ar natur ariannol eu lleoliad. Er bod hyn yn cael ei drafod amlaf gan weithwyr chwarae, nododd staff mewn lleoliadau gofal plant hefyd gontractau 'dim oriau' fel ffynhonnell o ansicrwydd a phryder.

1.11 Roedd cyfranogwyr mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws ar draws gwahanol fathau o leoliadau yn tynnu sylw'n gyson at anawsterau rhedeg lleoliad sy'n hyfyw yn economaidd tra'n talu staff o leiaf yr isafswm cyflog neu ychydig yn uwch. Mynegodd y cyfranogwyr heriau hefyd o ran darparu darpariaeth ddigonol ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu anghenion cymorth cymhleth eraill. Cytunodd y cyfranogwyr bod "angen brys" i ddarparu ffynonellau ariannu mwy penodol ar gyfer cymorth wedi'i deilwra i'r grŵp hwn o blant.

1.12 Gan edrych i'r dyfodol, mae'r gwaith modelu a wnaed i ragamcanu'r gweithlu yn awgrymu mwy o alw am weithwyr gofal plant a gwaith chwarae dros y pum mlynedd nesaf, wedi'i ysgogi'n bennaf gan ehangu Dechrau'n Deg. Mae hyn er gwaethaf gostyngiad rhagamcanol yn y boblogaeth o blant ifanc dros yr un cyfnod. Awgryma

ein dadansoddiad bod yr ehangu hwn yn y galw yn debygol o gael ei ganolbwyntio'n bennaf o fewn lleoliadau gofal dydd. Mae ein dadansoddiad hefyd yn awgrymu y bydd angen cynnydd sylweddol yn swm y ddarpariaeth gofal plant a chwarae cyfrwng Cymraeg er mwyn i awdurdodau lleol barhau ar y trywydd iawn gyda'u targedau darpariaeth cyfrwng Cymraeg (fel y nodir yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg).

# 2. Cyflwyniad

### Pwrpas yr adroddiad hwn

2.1 Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i ddarparu addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd da i holl blant Cymru. Felly, mae'n hanfodol cael darlun cywir o faint a chyfansoddiad y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae presennol. Bydd deall natur y galw yn y dyfodol am ddarpariaeth gofal plant a chwarae yn arbennig o allweddol i sicrhau y gall y sector ddiwallu anghenion ei weithlu yn ddigonol. Ymhellach, mae'n bwysig cael ymwybyddiaeth fanwl o ganfyddiadau'r gweithlu, ceisio sefydlu mewnwelediad i lwyddiannau a heriau presennol, effaith polisi ar leoliadau, yn ogystal â chasglu barn ac awgrymiadau cyffredinol ar gyfer y dyfodol i gefnogi'r sector.

2.2 Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru, gan gynnwys modelu cyfansoddiad presennol a dyfodol gweithlu'r sector ac ymgysylltu ag aelodau o'r gweithlu. Bwriad y gwaith yw caniatáu i lunwyr polisi (i) ddeall cyfansoddiad y gweithlu presennol yn well, (ii) cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, (iii) mynd i'r afael ag anghenion lleol darparwyr, a (iv) mynd i'r afael â phryderon am ddiffyg cynrychiolaeth gyfartal yng ngweithlu'r sector.

2.3 Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau ail gam y prosiect dau-gam hwn. Roedd adroddiad Cam 1 yn crynhoi canfyddiadau'r cam cwmpasu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyrff cynrychioliadol a sefydliadau ymbarél yn y sector gofal plant a chwarae. Ymhellach, cyflwynodd adolygiad data a dadansoddiad o gofrestr Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) (ymhlith nifer o ffynonellau eraill) i ddarparu sail ar gyfer y gwaith modelu a gynhaliwyd yn yr adroddiad Cam 2 hwn.

2.4 Mae adroddiad Cam 2 yn adeiladu ar Gam 1 drwy gyflwyno canfyddiadau o waith maes yn ymgysylltu ag ymarferwyr a rheolwyr yn y sector, canlyniadau'r arolwg o ymarferwyr a gynhaliwyd rhwng Awst a Medi 2023, crynodeb o ffynhonnell data'r cymhwyster Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), a chanfyddiadau o fodelu'r gweithlu.

### Strwythur yr adroddiad

2.5 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 3** yn amlinellu ein dull ymchwil, gan fanylu ar recriwtio cyfranogwyr gwaith maes, datblygu offer ymchwil, a chynllun y modelu.
- Mae **Adran 4** yn amlinellu ein dadansoddiad o'r arolwg gweithlu ac yn cyflwyno canfyddiadau ar sail sampl yr ymatebwyr.
- Mae **Adran 5** yn crynhoi nodweddion ymatebwyr a chanfyddiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfweliadau a grwpiau ffocws.
- Mae **Adran 6** yn amlinellu ein dadansoddiad o ddata LLWR (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru) ac unrhyw ganfyddiadau sy'n deillio o'r ffynhonnell ddata ar gymwysterau'r gweithlu.
- Mae **Adran 7** yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith modelu gweithlu.
- Mae **Adran 8** yn dod i gasgliadau o’r ymchwil Cam 2 ac yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau trosfwaol ar draws yr holl ddulliau ymchwil.
- Gellir dod o hyd i ddeunyddiau ymchwil yn Atodiadau A, B, C a D, ynghyd â rhestr o ragdybiaethau sy'n ymwneud â'r dadansoddiad o ragamcanion.

## 3. Dull ymchwil

3.1 Canolbwyntiodd Cam 2 yr ymchwil hwn ar ddwy gydran greiddiol: (i) ymgysylltu ag ymarferwyr a rheolwyr sy'n gweithio yn y sector drwy arolwg, cyfweliadau a grwpiau ffocws; a (ii) dadansoddiad data manwl a modelu nodweddion y gweithlu. Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2023 a thrafodir y canlyniadau yn yr adrannau canlynol.

### Dull y gwaith maes

3.2 Bwriad y gwaith maes gydag ymarferwyr a rheolwyr gofal plant a gwaith chwarae oedd darparu ystod o fewnwelediadau i weithlu'r sector, gan gynnwys recriwtio a chadw, cymwysterau, darpariaeth Gymraeg, strategaethau i gefnogi recriwtio gweithlu amrywiol, yn ogystal â dilyn i fyny ar ystyriaethau perthnasol a godwyd yn ystod gwaith Cam 1.

3.3 Cynhaliwyd y gwaith o ddatblygu'r offer gwaith maes mewn cydweithrediad agos â Llywodraeth Cymru, gan gwmpasu arolwg yn y Gymraeg a'r Saesneg a ddosbarthwyd i bob lleoliad cofrestredig. Ymhellach, cafodd canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau a grwpiau ffocws eu teilwra i'r math o leoliad a lefel cyfrifoldeb cyfranogwyr unigol.

*Recriwtio cyfranogwyr*

3.4 Datblygwyd arolwg i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion demograffig y gweithlu, cymwysterau, sgiliau Cymraeg, yn ogystal â chyfleoedd a heriau ehangach yn y sector. Cafodd yr arolwg a oedd wedi ei dargedu ar ymarferwyr a rheolwyr yn y sector gofal plant a chwarae ei agor ar gyfer cyflwyniadau o 7$^{fed}$ Awst tan 10$^{fed}$ Medi. Anfonwyd gwahoddiadau i ymateb i'r arolwg ddwywaith i bob lleoliad trwy restr o leoliadau cofrestredig sydd ar gael i'r cyhoedd.[1] At hynny, anfonwyd tri gwahoddiad i gymryd rhan trwy gylchlythyr rheolaidd AGC i leoliadau. Roedd yr e-byst a'r gwahoddiadau cylchlythyr yn gofyn yn benodol i reolwyr lleoliadau ddosbarthu'r arolwg i'w haelodau staff, o ystyried nad oedd manylion cyswllt unigol aelodau'r gweithlu ar gael.

3.5 Unwaith yr oedd yr ymatebwyr wedi cwblhau'r arolwg, fe'u gwahoddwyd i ddarparu eu manylion cyswllt ar ffurf ar wahân i fynegi diddordeb ynghylch p'un a hoffent gymryd rhan mewn grŵp ffocws neu gyfweliad. Os oedd ymatebwyr yn mynegi

[1] Arolygiaeth Gofal Cymru, 2023. Gweler: [Cyfeiriadur gwasanaethau gofal | Arolygiaeth Gofal Cymru]

diddordeb, gofynnwyd iddynt nodi eu rôl broffesiynol, math o leoliad, awdurdod lleol, dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg), yn ogystal â'u manylion cyswllt. Yn dilyn hynny, gwahoddwyd ymatebwyr i'r math o ymgysylltiad dilynol yr oeddent wedi gofyn amdano.

3.6 Er mwyn cynyddu nifer y cyfranogwyr mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws, cynhaliwyd ail rownd o recriwtio ym mis Medi 2023, gyda gwahoddiadau'n cael eu dosbarthu trwy'r sefydliadau rhanddeiliaid Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a Mudiad Meithrin yn y sector gofal plant a chwarae.

*Dadansoddiad o'r ymatebion*

3.7 Cafodd data yr arolwg o ymarferwyr a rheolwyr ei rannu'n ystadegau cryno disgrifiadol ar gyfer dangosyddion canolog fesul pwnc a chwestiwn. Darllenwyd yr ymatebion testun agored i'r arolwg a hefyd cawsant eu hasesu trwy ddadansoddiad thematig.

3.8 Dadansoddwyd data o ymgysylltiad â rhanddeiliaid drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws drwy ddadansoddiad thematig. Mae'r dull hwn yn caniatáu canfod themâu cyffredin a thueddiadau trosfwaol ar draws cyfranogwyr, tra'n ystyried y segmentu rhwng gwahanol fathau o leoliad.

**Dull o ymdrin â'r modelu**

3.9 Datblygwyd model i ragamcanu'r galw yn y dyfodol am ofal plant a lleoedd chwarae, a'r galw dilynol am y gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae sy'n debygol o fod yn angenrheidiol i gynnal unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth.

3.10 Mae'r model yn amcangyfrif y galw presennol ac yn y dyfodol am ofal plant a lleoedd chwarae a gweithwyr yng Nghymru, gan ragamcanu ar gyfer y cyfnod pum mlynedd 2023/24 i 2027/28.

3.11 Lle bo modd, mae'r model yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ganlyniadau SASS 2023, ymrwymiadau polisi cyhoeddedig ar gyfer y sector, a data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Crynhoir y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd a'r ffynonellau data sylfaenol yn Atodiad D yr adroddiad hwn.

3.12 Mae'r model yn ystyried newidiadau posibl yn y dyfodol i ymrwymiadau neu dargedau polisi a newidiadau demograffig. Mae senarios allweddol sydd wedi'u modelu yn cynnwys:

- **Senarios a thargedau polisi.** Mae'r model yn ystyried gwahanol senarios polisi i ragamcanu effaith ymrwymiadau neu nodau polisi presennol neu bosibl ar ofal plant a chwarae a'r galw am weithlu. Mae senarios polisi yn cynnwys:
    - **Ehangu Dechrau'n Deg.** Mae'r model yn ystyried y galw ychwanegol am leoedd a gweithwyr sydd eu hangen i hwyluso ehangu gofal plant Dechrau'n Deg. Gan ddechrau ym mis Medi 2022, targedwyd Cam 1 o ehangu Dechrau'n Deg i ddarparu mynediad i wasanaethau Dechrau'n Deg i 2,500 o blant rhwng 0-4 oed (rhagorwyd ar y targed hwn bellach). Mae hyn yn cynnwys gofal plant i blant 2-3 oed, gyda'r rhai sy'n gymwys yn cael 12.5 awr o ofal plant yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn.[2] Bydd Cam 2 o ehangu Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant i fwy na 3,000 o blant rhwng 2 a 3 oed yn ystod 2023/24 a 2024/25.[3]
    - **Targedau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.** Mae newidiadau i dargedau darpariaeth gofal plant a chwarae cyfrwng Cymraeg hefyd yn cael eu hystyried yng ngofynion gweithlu'r dyfodol. Fel rhan o Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o 150 o gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg o fewn deng mlynedd i'w gyhoeddi (gyda darparwyr gofal meithrin yn dod o fewn diffiniad yr AGC o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig), gyda phob awdurdod lleol yn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.[4]

    3.13 **Senarios polisi enghreifftiol ar gyfer y dyfodol**. Mae'r model yn cynnwys hyblygrwydd i addasu paramedrau polisi allweddol i archwilio effaith newidiadau polisi ychwanegol, gan gynnwys goblygiadau i'r galw am ofal plant a chwarae (o ran nifer y lleoedd ac oriau darpariaeth) ar y gweithlu.
- **Newid demograffig.** Rydym wedi defnyddio amcanestyniadau poblogaeth sefydledig, y rhai a ddatblygwyd gan SYG ar gyfer grwpiau oedran ifanc yng

[2] Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol. Gweler: Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol (Llywodraeth Cymru)
[3] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru. Gweler: Plant Cymru i elwa ar fuddsoddiad o £100 miliwn mewn gofal plant (Newyddion Llywodraeth Cymru)
[4] Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017). Gweler: Cymraeg 2050: Strategaeth yr Iaith Gymraeg (Llywodraeth Cymru)

Nghymru, i amcangyfrif sut y byddai angen i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae esblygu i fodloni'r galw posibl am wasanaethau oherwydd newidiadau demograffig.[5]

3.14 Er mwyn cefnogi cynllunio a darparu mewnwelediad ychwanegol i'r galw am leoedd a'r gweithlu, mae'r model yn darparu dadansoddiadau o'r galw am wasanaethau a staffio fesul:

- Y **math o leoliad** lle darperir y gwasanaeth.
- **Sgiliau iaith Gymraeg** y staff sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Yr **iaith** y darperir y gwasanaeth ynddi.
- Yr ardal **awdurdod lleol** lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.
- **Lefel cymwysterau'r staff** sy'n darparu'r gwasanaeth

3.15 Datblygwyd y rhagamcanion ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae a'r galw am weithwyr drwy'r camau canlynol (a grynhoir hefyd yn y diagram isod):

- **Cam 1:** Amcangyfrif y galw presennol am ofal plant a lleoedd chwarae a gweithwyr gan ddefnyddio'r data sydd ar gael. Y brif ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y galw presennol am leoedd a gweithwyr oedd set ddata SASS 2023.

- **Cam 2**: Rhagamcanu'r newid yn y galw am wasanaethau gofal plant a chwarae yn seiliedig ar y twf a ragwelir yn y boblogaeth o bobl ifanc (gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth i bob grŵp oedran a ddatblygwyd gan SYG).

- **Cam 3**: Modelu effaith newidiadau posibl i ymrwymiadau polisi presennol ac yn y dyfodol, gan wneud rhagdybiaethau ynghylch y boblogaeth gymwys debygol a lefel y defnydd pe bai unrhyw baramedrau polisi allweddol yn newid.


- **Cam 4**: Trosi unrhyw newidiadau a ragwelir yn y galw am wasanaethau i newid yn y galw am weithlu, gan wneud rhagdybiaethau ar gymhareb gweithwyr i leoedd.

- **Cam 5:** Yna mapiwyd y rhagamcanion terfynol i gategorïau diddordeb allweddol (a amlinellir ym mharagraff 3.13), yn seiliedig yn bennaf ar

[5] Mae ein rhagdybiaethau yn seiliedig ar yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol interim seiliedig ar 2020 ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd gan SYG: Sail – 2020 (Llyw Cymru)

ddadansoddiadau hanesyddol o’r galw am wasanaethau gofal plant a chwarae.

**Ffigur A: Diagram o’r model galw am weithlu gofal plant a chwarae**




## 4. Dadansoddiad o ddata'r arolwg

4.1 Yn yr adran hon, manylir ar y mewnwelediadau a gafwyd o'r arolwg a ddosbarthwyd i leoliadau gofal plant a chwarae rhwng Awst a Medi 2023. Derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 624 o ymatebion, a chyflwynwyd 30 ohonynt yn Gymraeg. Roedd y pynciau a gafodd sylw yng nghwestiynau'r arolwg yn cynnwys patrymau gwaith a manylion lleoliadau ymatebwyr, cwestiynau demograffig, cymwysterau ymatebwyr, boddhad personol â gwaith, a rhagolygon ymatebwyr ar gyfer y dyfodol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a atebodd yn rhinwedd eu swydd fel rheolwyr lleoliad ddarparu gwybodaeth ddienw am nodweddion aelodau'r gweithlu yn eu lleoliadau yn ogystal â thrafod eu profiadau gyda strwythurau a heriau ehangach yn y sector.

**Dadansoddiad o batrymau gwaith**

4.2 Ymhlith y 617 o ymatebwyr i'r cwestiwn cyntaf, dywedodd 44 y cant eu bod yn gweithio fel rheolwr lleoliad, atebodd 38 y cant eu bod yn ymarferydd gofal plant (yn unol â chyfarwyddiadau'r arolwg, mae hyn hefyd yn cynnwys gwarchodwyr plant heb staff), saith y cant yn ymarferwyr gwaith chwarae, ac 11 y cant "Arall". Ymhlith y rhai a ymatebodd "Arall", y rolau a grybwyllwyd amlaf oedd gwarchodwyr plant, dirprwy reolwyr, swyddogion chwarae, staff ysgol, ac ymddiriedolwyr.[6]

**Ffigur 1: Ymatebion i'r arolwg yn ôl math o ymatebydd**





N=617 o ymatebwyr

[6] Dylid nodi bod yr arolwg wedi'i ddosbarthu drwy restrau postio swyddogol gan AGC i reolwyr lleoliadau y gofynnwyd iddynt wedyn ddosbarthu'r arolwg i'w haelodau staff. Mae cyfran rheolwyr lleoliadau felly fel rhan o gyfanswm yr ymatebwyr yn debygol o fod yn uwch, o ystyried eu bod wedi cael gwahoddiad i gwblhau'r arolwg yn uniongyrchol. Nid oes cyfeiriadur o'r fath o fanylion cyswllt ar gyfer ymarferwyr yn bodoli.

4.3 Ymhlith yr ymatebwyr, dywedodd 39 y cant eu bod yn gweithio mewn lleoliad gofal dydd llawn, 31 y cant fel gwarchodwyr plant, a 14 y cant mewn lleoliadau gofal dydd sesiynol. Ymhellach, ymatebodd saith y cant fel gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn gofal y tu allan i oriau ysgol, pedwar y cant mewn darpariaeth chwarae mynediad agored, ac un y cant mewn creche. Ymhlith y pedwar y cant a atebodd "Arall", dywedodd ymatebwyr eu bod yn gweithio mewn elusennau plant, lleoliadau Cylch Meithrin, fel gweithwyr llawrydd, mewn cylchoedd chwarae, yn ogystal â chyfuniadau o'r categorïau uchod.

**Ffigur 2: Ymatebion i'r arolwg yn ôl math o leoliad**




N=614 o ymatebwyr

4.4 Pan ofynnwyd i ba gategori o ddarparwr yr oedd yr ymatebwyr yn gweithio, atebodd 68 y cant eu bod yn gweithio i ddarparwr sector preifat, 17 y cant i ddarparwr awdurdod lleol, a deg y cant i ddarparwr trydydd sector. Ymatebodd pump y cant "Arall", gan grybwyll elusennau, lleoliadau Mudiad Meithrin, neu eu bod yn hunangyflogedig.

4.5 Ar draws y mathau o leoliad, dywedodd ymatebwyr eu bod yn gweithio gydag ystod o blant ar draws grwpiau oedran, gan amlaf plant tair i bedair oed (25 y cant), plant dwy oed (24 y cant), plant pump i ddeuddeg oed (17 y cant), plant un oed (16 y cant), yn ogystal â phlant o dan un oed (15 y cant) ac "Arall". Roedd y rhai a


ddywedodd eu bod yn gweithio gyda grwpiau oedran eraill yn aml yn darparu grwpiau oedran mwy penodol, e.e., plant tair i un ar ddeg oed neu blant pedair i ddeuddeg oed.

4.6 Atebodd ymatebwyr o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yr arolwg, yn amrywio o lai na deg ymateb mewn tri awdurdod lleol (Ynys Môn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr) i fwy na 40 o ymatebion mewn pum awdurdod lleol (Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf , Bro Morgannwg).

4.7 Nid oedd gan dri o bob pedwar o ymatebwyr (76 y cant) unrhyw swyddi â chyflog ychwanegol, ar wahân i'w prif waith. Mewn cyferbyniad, roedd gan 11 y cant swydd eilaidd yn y sector gofal plant a chwarae tra bod gan 11 y cant arall swyddi mewn sectorau gwahanol. Roedd yn well gan y ddau y cant arall o ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn. Pan ofynnwyd iddynt am y math o waith yr oedd yr ymatebwyr gyda swyddi eilaidd yn ei wneud, ymatebodd 45 y cant eu bod yn gweithio mewn lleoliadau gwaith chwarae neu glybiau y tu allan i oriau ysgol. At hynny, roedd gan ymatebwyr swyddi eilaidd mewn gofal plant (21 y cant), gwaith ieuenctid (deg y cant), a gwarchod plant (saith y cant). Ymhlith yr 17 y cant a ymatebodd "Arall", roedd enghreifftiau yn cynnwys ysgolion a chynorthwywyr addysgu.

4.8 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd prif iaith gwasanaethau yn y lleoliad, dywedodd 71 y cant eu bod yn Saesneg, 18 y cant yn y Gymraeg, ac roedd 11 y cant yn gweithio mewn lleoliad dwyieithog.

**Ffigur 3: Iaith a ddefnyddir yn y lleoliad**





N=614 o ymatebwyr

### Dadansoddiad o ddemograffig yr ymatebwyr

4.9 Gofynnodd yr arolwg amrywiaeth o gwestiynau demograffig y gallai ymatebwyr ddewis eu hateb. Pan ofynnwyd iddynt am eu grŵp oedran, ymatebodd 29 y cant eu bod rhwng 36-45 oed, 28 y cant eu bod rhwng 46-55 oed, ac roedd yr 20 y cant arall rhwng 56-65 oed. Yn ogystal, dywedodd 15 y cant eu bod rhwng 26-35 oed, pump y cant rhwng 16-25 oed, roedd dau y cant dros 66 oed, ac roedd yn well gan un y cant beidio ag ateb y cwestiwn.


**Ffigur 4: Oed yr ymatebwyr**




N=617 o ymatebwyr

4.10 At hynny, holodd yr arolwg am sgiliau Cymraeg ymarferwyr a rheolwyr lleoliadau. Ymhlith y 615 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, dywedodd 47 y cant eu bod yn siarad ychydig neu ddim Cymraeg, dywedodd 33 y cant eu bod yn siarad rhywfaint o Gymraeg ac roedd 21 y cant yn rhugl yn y Gymraeg.


**Ffigur 5: Sgiliau iaith Gymraeg yr ymatebwyr**




N=615 o ymatebwyr

Pan ofynnwyd pa mor aml yr oedd ymarferwyr yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith, dywedodd 66 y cant eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, dywedodd 16 y cant ei bod yn ei defnyddio sawl gwaith yr wythnos, dywedodd saith y cant eu bod yn defnyddio'r Gymraeg sawl gwaith y mis, a dywedodd pump y cant eu bod yn defnyddio'r Gymraeg lai nag unwaith y flwyddyn, tri y cant unwaith neu sawl gwaith y flwyddyn, a thri y cant unwaith y mis. Gellir cael mewnwelediad pellach trwy ddadgyfuno atebion ymatebwyr i ba mor aml y maent yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ôl y math o ymatebydd (rheolwr lleoliad, gweithiwr chwarae, ymarferwr gofal plant, ac ymatebwyr eraill). Yn nodedig, dywedodd 71 y cant o reolwyr lleoliadau eu bod yn defnyddio eu Cymraeg bob dydd, o'i gymharu â 65 y cant o ymarferwyr gofal plant a 54 y cant o weithwyr chwarae a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd. Ymhlith y rhai sy'n defnyddio eu Cymraeg unwaith y mis neu lai, roedd hyn yn cynnwys naw y cant o'r holl reolwyr lleoliadau a ymatebodd, naw y cant o ymarferwyr gofal plant, a 27 y cant o weithwyr chwarae.

**Ffigur 6: Amlder defnyddio Cymraeg yn ôl y math o ymatebydd**





N=613 o ymatebwyr

4.11 Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i ymatebwyr hunan-adrodd am eu bandiau cyflog priodol. Ymhlith 602 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, dywedodd 44 y cant eu bod yn ennill £10.91 neu fwy yr awr, sy'n cyfateb i gyflog uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Dywedodd 19 y cant arall eu bod yn cael tâl o £10.42 yr awr neu'n uwch, sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Cenedlaethol i bobl 23 oed a hŷn, a dywedodd deg y cant eu bod yn cael llai o gyflog na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer eu hoedran priodol. Er bod 19 y cant o ymarferwyr gofal plant yn dweud eu bod yn cael llai o gyflog na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol am eu hoedran, dim ond i bedwar y

cant o reolwyr lleoliadau a thri y cant o'r gweithwyr chwarae yr oedd hyn yn berthnasol. Roedd 38 y cant arall o'r gweithwyr chwarae a ymatebodd i'r arolwg yn cael tâl o £10.42 yr awr neu ychydig yn uwch na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc 21 a 22 oed, gyda 28 y cant o ymarferwyr gofal plant ac 11 y cant o reolwyr lleoliadau hefyd yn cael y swm hwn. Yn ogystal, dywedodd 69 y cant o reolwyr lleoliadau eu bod yn cael £10.91 neu fwy yr awr, sydd hefyd yn berthnasol i 44 y cant o weithwyr chwarae a 21 y cant o ymarferwyr gofal plant, sy'n cyfateb i gyflog uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

**Ffigur 7: Tâl yr awr yn ôl y math o ymatebydd**




N=602 o ymatebwyr

4.12 Pan ofynnwyd iddynt am eu rhyw, atebodd 96 y cant o ymatebwyr "benywaidd" a dywedodd tri y cant "gwrywaidd". Ymhellach, nododd 99 y cant fod y rhyw yr oeddent yn uniaethu ag ef yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni.

4.13 Ymhlith 615 o ymatebion i'r cwestiwn "Beth yw eich grŵp ethnig?", atebodd 98 y cant 'Gwyn'. Dywedodd dau y cant o unigolion eu bod naill ai o gefndir "Grwpiau ethnig cymysg neu luosog", o gefndir "Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd

Prydeinig”, o gefndir ”Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd”, neu o “Grwpiau ethnig erail”.[7]

4.14 Pan ofynnwyd iddynt a oedd ganddynt unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch a oedd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, am 12 mis neu fwy, ymatebodd 80 y cant nad oedd ganddynt unrhyw gyflwr neu salwch o’r fath, atebodd 16 y cant “Oes”, ac roedd yn well gan dri y cant beidio ag ateb. Ymhlith yr ymatebwyr a atebodd “Oes” ac a oedd yn fodlon dweud mwy, atebodd 45 y cant fod eu cyflwr neu salwch yn lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd, dywedodd 35 y cant nad oedd hyn yn wir o gwbl, roedd yn well gan 11 y cant beidio â dweud, ac atebodd wyth y cant bod hyn wedi effeithio'n fawr arnynt.

**Cymwysterau**


4.15 Holwyd yr holl ymatebwyr am y cymhwyster uchaf oedd ganddynt ar hyn o bryd. Gan amlaf, roedd gan ymatebwyr gymhwyster Lefel 3 mewn naill ai gofal plant neu waith chwarae (40 y cant a 52 y cant o’r rhai oedd ag unrhyw gymhwyster gofal plant neu waith chwarae, yn y drefn honno), ac yna Lefel 5 mewn gofal plant (32 y cant o ymatebwyr ag unrhyw gymhwyster gofal plant). Dywedodd 26 y cant arall o ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw gymhwyster gwaith chwarae ac nid oedd gan bump y cant unrhyw gymhwyster gofal plant.

**Tabl 1: Lefelau cymhwyster uchaf yn ôl y math o ymatebydd**

| | Gofal plant | Gwaith chwarae | Gofal plant | Gwaith chwarae |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Dim | 29 | 87 | 5% | 26% |
| Lefel 2 | 39 | 30 | 7% | 9% |
| Lefel 3 | 232 | 173 | 40% | 52% |
| Lefel 4 | 47 | 7 | 8% | 2% |
| Lefel 5 | 185 | 19 | 32% | 6% |
| Arall | 50 | 19 | 9% | 6% |
| **Cyfanswm** | **582** | **335** | **100%** | **100%** |

[7] Ni ddatgelir ffigurau manwl gywir er mwyn osgoi risgiau o adnabod unigolion.


**Ffigur 8: Lefelau cymwysterau mewn gofal plant a gwaith chwarae**




N=602 o ymatebwyr yn darparu gwybodaeth naill ai am ofal plant neu gymwysterau gwaith chwarae, neu'r ddau.


4.16 O ystyried gofynion gwahanol fesul y math o leoliad, mae segmentu pellach yn ôl y math o ymatebydd yn ddefnyddiol. Wrth ddadgyfuno canlyniadau yn ôl math o rôl broffesiynol yr ymatebwyr, mae data'r arolwg yn dangos bod 53 y cant o reolwyr lleoliadau yn meddu ar gymhwyster gofal plant Lefel 5, 26 y cant o reolwyr lleoliadau yn meddu ar gymhwyster gofal plant Lefel 3, tra bod gan 62 y cant o reolwyr lleoliadau sydd ag unrhyw gymhwyster gwaith chwarae yn meddu ar Lefel 3. Ymhlith ymarferwyr gofal plant sydd â chymhwyster gofal plant, mae gan 57 y cant gymhwyster Lefel 3, a 12 y cant Lefel 5. Ymhlith gweithwyr chwarae â chymwysterau gwaith chwarae, mae ymatebwyr gan amlaf yn meddu ar Lefel 3 (47 y cant) yn ogystal â Lefel 2 (25 y cant).

**Ffigur 9: Cymwysterau gofal plant a ddelir yn ôl y math o ymatebydd**



N=582 o ymatebwyr yn nodi a oedd ganddynt gymhwyster gofal plant.

**Ffigur 10: Cymwysterau gwaith chwarae a ddelir yn ôl y math o ymatebydd**





N=335 o ymatebwyr yn nodi a oedd ganddynt gymhwyster gwaith chwarae.

4.17 Pan ofynnwyd iddynt a oeddent ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer unrhyw gymwysterau ychwanegol mewn gofal plant neu waith chwarae neu’n bwriadu astudio ar gyfer un yn ystod y 12 mis nesaf, atebodd 62 y cant o’r ymatebwyr nad oeddent. Dywedodd 18 y cant arall nad oeddent wedi penderfynu, roedd 11 y cant yn ymgymryd â chymhwyster gofal plant ar hyn o bryd neu'n bwriadu ymgymryd ag ef, roedd chwech y cant wrthi'n ymgymryd â chymhwyster gwaith chwarae, ac roedd tri y cant yn ymgymryd â math arall o gymhwyster. Roedd enghreifftiau o gymwysterau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys gwarchod plant, arweinyddiaeth a rheolaeth, ac ysgol goedwig. Ymhlith y rhai sy'n astudio ar gyfer cymhwyster ar hyn o bryd, roedd 44 y cant yn astudio ar gyfer Lefel 3, 21 y cant ar gyfer Lefel 5, ac 20 y cant ar gyfer Lefel 4, tra bod naw y cant yn astudio ar gyfer Lefel 2 a chwech y cant ar gyfer lefel amhenodol arall.

**Boddhad a rhagolygon gwaith personol**

4.18 Pan ofynnwyd iddynt pa mor fodlon oeddent â'u gwaith presennol yn y sector, ymatebodd 38 y cant eu bod yn fodlon ar hyn o bryd, 27 y cant yn fodlon iawn, 20 y cant yn teimlo'n niwtral, tra dywedodd 12 y cant eu bod yn teimlo'n anfodlon a thri y cant yn anfodlon iawn.


**Ffigur 11: Boddhâd personol yr ymatebwyr**




N=617 o ymatebwyr

4.19 Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr hynny a nododd yn flaenorol eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn beth oedd y rhesymau dros eu hanfodlonrwydd (gallai'r ymatebwyr ddewis pob rheswm perthnasol). Dywedodd 48 y cant o'r ymatebwyr bod eu hanfodlonrwydd yn deillio o gyflog a chydnabyddiaeth, cyfeiriodd 46 y cant at gydbwysedd bywyd a gwaith, a soniodd 20 y cant am heriau o ran goruchwylio staff. Dywedodd 15 y cant arall fod eu hanfodlonrwydd wedi'i achosi gan ddiffyg cyfleoedd dilyniant, dywedodd 12 y cant eu bod yn teimlo pwysau a chyfrifoldeb, nododd naw y cant arweiniad neu gefnogaeth annigonol gan reolwyr a nododd saith y cant fod cymwysterau ar gyfer dilyniant yn anodd eu cyflawni.


**Ffigur 12: Rhesymau dros anfodlonrwydd [ymhlith ymatebwyr a nododd anfodlonrwydd yn flaenorol]**




N=94 o ymatebwyr – nodwch mai dim ond i ymatebwyr a atebodd “Anfodlon” neu “Anfodlon iawn” yn y gorffennol y gofynnwyd y cwestiwn dilynol hwn.

4.20 Yn dilyn cwestiynau ar foddhad ac anfodlonrwydd, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn ystyried unrhyw un o nifer o opsiynau. Dywedodd 62 y cant o’r ymatebwyr nad oeddent yn ystyried unrhyw opsiwn arfaethedig, roedd 20 y cant yn ystyried gadael y sector, ac roedd chwech y cant yn ystyried cymryd ail swydd. Ymhlith yr 20 y cant a atebodd eu bod yn ystyried gadael y sector, nododd 40 y cant mai cyflog a thâl oedd eu prif reswm, yn ogystal â 33 y cant yn nodi teimladau o bwysau a chyfrifoldeb. Soniodd 13 y cant arall am bryderon cydbwysedd gwaith-bywyd fel eu rheswm dros fod eisiau gadael y sector.

**Ffigur 13: Rhesymau dros adael y sector gofal plant a chwarae**




N=119 o ymatebwyr – nodwch mai dim ond i ymatebwyr a atebodd yn flaenorol eu bod yn ystyried gadael y sector yn ystod y 12 mis nesaf y gofynnwyd y cwestiwn dilynol hwn.

4.21 Yn dilyn y cwestiwn amlddewis ynghylch pam roedd aelodau'r gweithlu a ymatebodd yn anfodlon, gofynnodd yr arolwg i'r holl ymatebwyr a oeddent yn disgwyl i unrhyw heriau o bolisi gofal plant a chwarae presennol neu yn y dyfodol effeithio ar eu lleoliadau. Darparodd yr ymatebwyr atebion ysgrifenedig yn crybwyll amrywiaeth o resymau dros anfodlonrwydd, wedi'u trefnu yn ôl amlder yn y paragraffau canlynol.

4.22 Roedd y pryderon a grybwyllwyd amlaf yn ymwneud ag ehangu Dechrau'n Deg. Ymatebodd rheolwyr lleoliad eu bod yn cael trafferth denu digon o staff i gyflenwi'r ehangu ac i ddarparu ar gyfer plant ychwanegol yn dod i mewn i'w lleoliad. At hynny, mynegodd rhai ymatebwyr eu barn y dylid ymestyn Dechrau'n Deg i bob gwarchodwr plant yn unffurf ar draws pob awdurdod lleol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y dylai system weinyddol Dechrau'n Deg fod yn gydnaws â Chynnig Gwaith Gofal Plant ac yn ddelfrydol defnyddio'r un system ag a ganmolwyd ar gyfer y Cynnig Gwaith Gofal Plant. Yn y cyfamser, nodwyd heriau sylweddol gyda dulliau presennol Dechrau'n Deg. Wrth ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r arolwg, mynegodd nifer o reolwyr lleoliadau hefyd bryderon ynghylch addasrwydd y nifer isel o oriau a ddarperir drwy Dechrau'n Deg ac Ehangu Dechrau'n Deg (yn enwedig i rieni sy'n gweithio) ac roeddent yn annog mabwysiadu model fel y gwelir ar hyn o bryd yn Lloegr, sy'n cynnig 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu i blant dwy oed.

4.23 Yr ail thema fwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd bod y cyllid presennol fesul lle ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg yn annigonol i dalu costau eu lleoliadau, ac roeddent yn gweithredu ar golled yn aml wrth geisio talu costau. Roeddent yn ceisio ymdrin â hyn trwy godi cyfraddau uwch ar rieni sy'n talu'n breifat. Cynigiodd rheolwyr lleoliad y dylent allu codi ffioedd atodol preifat am leoedd a ariennir i wneud eu busnes yn gynaliadwy a thalu costau ("Nid yw cost Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant yn cyfateb i'r gwariant yn y lleoliad gofal plant. Er enghraifft, cost aelod o staff, tâl gwyliau, yswiriant salwch, bwyd, rhent, deunyddiau, cyrsiau, ac ati." – Rheolwr lleoliad).


4.24 Y drydedd thema a amlygwyd amlaf oedd Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac yn benodol, y cymarebau a osodir gan AGC. Gyda chymarebau presennol, eglurodd y rheolwyr lleoliad nad oedd eu lleoliadau yn economaidd hyfyw, o ystyried yr ariannu fesul awr a fesul lle, a'r costau staff a gorbenion cysylltiedig. Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg ymhellach nad oeddent yn aml yn gallu denu niferoedd digonol o staff cymwys i fodloni gofynion y gymhareb, o ystyried nifer y plant oedd i fod i fynychu'r lleoliad. Yn lle hynny, dywedodd rheolwyr lleoliadau eu bod wedi gorfod buddsoddi adnoddau sylweddol i hyfforddi eu staff a'u hunain tra'n ei chael yn anodd cymell staff, heb fawr o wobr ariannol am gymwysterau gwell. Her arall a amlygwyd oedd beichiau canfyddedig gwaith papur a'r angen am ddull gwahanol o gynnal arolygiadau, gan ganolbwyntio ar gymorth i leoliadau a chydnabod cryfderau. Yr heriau eraill a grybwyllwyd gan reolwyr oedd pryderon ynghylch cystadleuaeth ag ysgolion, yr ystyriwyd eu bod yn gallu gweithredu gyda llai o gyfyngiadau, megis cymarebau staffio a chymwysterau, yn ogystal â phryderon ynghylch cymwysterau, diogelu, a gofynion am gymwysterau gwaith chwarae ychwanegol.

**Nodweddion y gweithlu yn y lleoliadau**

4.25 Gofynnwyd i reolwyr lleoliadau faint o staff amser llawn a rhan-amser yr oeddent yn eu cyflogi yn eu lleoliad (wedi'i gyfyngu i staff sy'n rhyngweithio'n uniongyrchol â phlant fel rhan o'u rôl). Nododd mwyafrif o leoliadau niferoedd staff amser llawn rhwng sero a phymtheg, gyda dim ond 14 y cant o leoliadau heb unrhyw staff amser llawn (15 y cant heb unrhyw staff rhan-amser), deg y cant gydag un aelod o staff amser llawn (12 y cant gydag un aelod o staff rhan-amser), deg y cant gyda dau aelod o staff amser llawn (14 y cant gyda dau aelod o staff rhan-amser), a 13 y cant gyda thri aelod o staff amser llawn (saith y cant gyda thri aelod o staff rhan-amser). Yn ogystal, dywedodd 22 y cant fod ganddynt rhwng pedwar a chwe aelod o staff


amser llawn (27 y cant gyda phedwar aelod o staff rhan-amser) a 14 y cant gyda rhwng saith a naw aelod o staff amser llawn (deg y cant gyda phum aelod o staff rhan-amser).

**Ffigur 14: Staff amser llawn mewn lleoliadau**




N=258 o reolwyr lleoliadau yn adrodd ar ran eu lleoliadau.

**Ffigur 15: Staff rhan-amser mewn lleoliadau**





N=264 o reolwyr lleoliadau yn adrodd ar ran eu lleoliadau.

4.26 Pan ofynnwyd a oedd lleoliadau'n ymgymryd ag unrhyw waith monitro cyfle cyfartal, atebodd 40 y cant eu bod, a dywedodd 42 y cant nad oeddent yn gwneud hynny. Ymatebodd 18 y cant arall ei bod yn well ganddynt beidio â dweud.

4.27 Gofynnwyd hefyd i reolwyr lleoliadau adrodd ar nifer y staff benywaidd a gwrywaidd, yn ôl eu data monitro cyfle cyfartal. Dywedodd cyfanswm o 71 y cant o'r lleoliadau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn nad oedd ganddynt unrhyw aelod o staff gwrywaidd, tra bod gan 21 y cant un aelod o staff gwrywaidd. Roedd naw y cant arall yn cyflogi rhwng dau a chwe aelod o staff gwrywaidd. Mewn cyferbyniad, dim ond un y cant o reolwyr lleoliadau a oedd heb unrhyw aelod o staff benywaidd, roedd gan 21 y cant rhwng un a phump o aelodau staff benywaidd, roedd gan 32 y cant o'r lleoliadau a ymatebodd rhwng chwech a deg aelod o staff benywaidd, ac roedd gan 31 y cant arall rhwng un ar ddeg i ugain aelod staff benywaidd.

**Ffigur 16: Nifer y staff gwrywaidd a benywaidd sy'n gweithio fesul lleoliad**




N=103 o reolwyr lleoliadau yn adrodd ar ran eu lleoliadau.

4.28 Pan ofynnwyd a oedd unrhyw staff o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig yn ôl data cyfle cyfartal, ymatebodd 80 y cant o reolwyr lleoliadau nad oedd hyn yn berthnasol i unrhyw aelod o staff. Atebodd 12 y cant arall o reolwyr lleoliadau fod ganddynt un aelod o staff o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig, tra bod wyth y cant arall o leoliadau yn cyflogi dau neu dri aelod o staff o'r cefndir hwn.


4.29 Yn ôl data cyfle cyfartal rheolwyr lleoliadau, atebodd 75 y cant o leoliadau nad oedd gan unrhyw un o'u haelodau staff anabledd, atebodd 18 y cant fod un aelod o staff yn anabl, ac ymatebodd saith y cant fod gan rhwng dau i bedwar o'u haelodau staff anabledd.

4.30 Pan ofynnwyd faint o aelodau staff oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl, dywedodd 32 y cant o leoliadau nad oedd unrhyw aelod o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, roedd gan 16 y cant un person rhugl, roedd gan 17 y cant ddau, ac roedd gan wyth y cant

dri aelod o staff a oedd yn rhugl yn y Gymraeg. Dywedodd 22 y cant arall o leoliadau fod ganddynt rhwng pedwar a deg o siaradwyr Cymraeg rhugl yn eu lleoliad.

4.31 At ddiben y dadansoddiad hwn, mae'r adran hon yn adrodd ar ganran y staff sy'n siarad Cymraeg mewn lleoliadau fel cyfran o ymarferwyr a rheolwyr cyflogedig amser llawn a rhan-amser. Ymhlith y 183 o reolwyr lleoliadau a atebodd y cwestiwn ynghylch a oedd ganddynt unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, dywedodd 78 o leoliadau fod rhwng 0-10 y cant o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl (cyfwerth â 43 y cant o'r holl leoliadau a atebodd y cwestiwn), dywedodd 15 y cant o leoliadau fod rhwng 10-20 y cant o staff yn rhugl yn y Gymraeg, roedd gan wyth y cant o leoliadau rhwng 20-30 y cant o staff yn rhugl yn y Gymraeg, ac roedd gan 13 y cant o leoliadau rhwng 90-100 y cant o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl.


**Ffigur 17: Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl mewn lleoliadau**




N=183 o reolwyr lleoliadau yn adrodd ar ran eu lleoliadau.

Pan ofynnwyd faint o staff oedd yn siarad tipyn o Gymraeg, ymatebodd 173 o reolwyr lleoliadau i'r cwestiwn. Dywedodd cyfran o 17 y cant o leoliadau fod rhwng 0-10 y cant o staff yn siarad tipyn o Gymraeg, tra bod 16 y cant yn dweud bod rhwng 10-20 y cant o'u staff yn siarad tipyn o Gymraeg. Ymatebodd 35 y cant arall o leoliadau fod rhwng 20-50 y cant o'u staff yn siarad tipyn o Gymraeg a dywedodd 13 y cant fod dros 90 y cant o'u staff yn siarad tipyn o Gymraeg.

**Ffigur 18: Canran y gweithlu sy'n siarad tipyn o Gymraeg mewn lleoliadau**





N=173 o reolwyr lleoliadau yn adrodd ar ran eu lleoliadau.

4.32 Yn olaf, gofynnwyd i reolwyr lleoliadau a oeddent yn casglu gwybodaeth am allu eu staff yn y Gymraeg. Atebodd cyfran o 68 y cant eu bod, tra atebodd 25 y cant nad oeddent, ac roedd yn well gan wyth y cant beidio â dweud.

**Strwythurau a heriau yn y sector**

4.33 Fel rhan o'r arolwg, holwyd rheolwyr lleoliadau hefyd am eu nifer o leoedd gwag yn awr ac yn y gorffennol. Ymhlith rheolwyr lleoliadau, nododd 70 y cant nad oedd unrhyw swyddi gwag, soniodd 17 y cant am un swydd wag, tra nododd chwech y cant o reolwyr lleoliadau ddwy swydd wag, nododd pedwar y cant dair swydd wag a soniodd dau y cant arall fod ganddynt rhwng pedair a deg o swyddi gwag ar hyn o bryd.

**Ffigur 19: Swyddi staff gwag presennol mewn lleoliadau**





N=263 o reolwyr lleoliadau yn adrodd ar ran eu lleoliadau.

Pan ofynnwyd iddynt am eu swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd 32 y cant o leoliadau nad oedd ganddynt unrhyw swyddi gwag, dywedodd 21 y cant

bod ganddynt un swydd wag, roedd gan 20 y cant ddwy swydd wag, ac roedd gan wyth y cant dair swydd wag. Dywedodd 19 y cant arall o leoliadau fod rhwng pump a deg o swyddi gwag yn ystod y 12 mis diwethaf.


**Ffigur 20: Nifer y swyddi gwag yn y 12 mis diwethaf mewn lleoliadau**




N=261 o reolwyr lleoliadau yn adrodd ar ran eu lleoliadau.

4.34 Yn gysylltiedig â swyddi gwag, gofynnwyd hefyd i reolwyr lleoliadau faint o staff oedd wedi gadael y lleoliadau yn ystod y 24 mis blaenorol. Roedd y cwestiwn yn nodi y gallai hyn gynnwys staff yn symud i leoliadau eraill, sectorau eraill, neu'n gadael gwaith yn gyfan gwbl. Mewn ymateb, atebodd 25 y cant o leoliadau nad oedd unrhyw staff wedi gadael yn y 24 mis blaenorol, dywedodd 24 y cant eu bod wedi colli un aelod o staff, dywedodd 20 y cant eu bod wedi colli dau aelod o staff, dywedodd wyth y cant fod tri aelod o staff wedi gadael, a dywedodd chwech y cant eu bod wedi colli un aelod o staff. Yn ogystal, nododd 13 y cant o reolwyr lleoliadau a ymatebodd golled o rhwng pump a deg aelod o staff.

**Ffigur 21: Nifer y staff sydd wedi gadael lleoliadau yn y 24 mis diwethaf**




N=264 o reolwyr lleoliadau yn adrodd ar ran eu lleoliadau.

4.35 Rhoddodd ymatebwyr hefyd eu barn ar ystod o rwystrau i recriwtio a chadw staff mewn gofal plant a gwaith chwarae. Yn benodol, dywedodd 78 y cant o ymatebwyr fod cyflog yn rhwystr, soniodd 43 y cant fod gofynion cymwysterau yn rhy uchel, nododd 28 y cant bryderon ynghylch oriau gwaith rhy hir, tynnodd 25 y cant sylw at gystadleuaeth o sectorau eraill, a soniodd 24 y cant o ymatebwyr am oriau gwaith rhy fyr. Soniodd 13 y cant arall o'r ymatebwyr am resymau eraill, er enghraifft gofynion y Gymraeg ar gyfer staff, diffyg cytundebau parhaol, y gwaith yn rhy galed neu fiwrocrataidd, yn ogystal â disgwyliadau afrealistig yn y sector.

4.36 Yn dilyn hynny, gofynnwyd i reolwyr lleoliadau amlinellu unrhyw broblemau eraill yr oeddent yn eu hwynebu wrth recriwtio staff ar gyfer eu lleoliad trwy gwestiwn testun agored. Amlygodd ymatebwyr amlaf ddiffyg cyffredinol o ran ceisiadau gan ymgeiswyr addas ac anhawster sylweddol gyda recriwtio a chadw staff yn ehangach. Nodwyd mai'r rheswm mwyaf cyffredin am yr anhawster hwn oedd cyflogau isel anneniadol ac mai dim ond yr isafswm cyflog yr oedd lleoliadau yn medru eu talu yn aml. Yr ail her a grybwyllwyd amlaf oedd dod o hyd i staff â lefelau digonol o gymwysterau neu a oedd yn barod i ymgymryd â chymwysterau ychwanegol heb unrhyw obaith o godiad cyflog. Lleisiodd rheolwyr lleoliad rwystredigaeth ynglŷn â methu â chyflogi staff â chymwysterau uchel yn y lleoliadau priodol (e.e., ysgolion, gwaith chwarae neu ofal plant, yn ogystal ag iechyd a gofal cymdeithasol), o ystyried na fyddai'r ymarferwyr hyn yn cyfrif o safbwynt cymarebau staff cymwys. Y materion penodol y cyfeiriwyd atynt fel rhesymau dros y diffyg ceisiadau oedd anallu lleoliadau i gynnig contractau parhaol, anawsterau wrth gynnig oriau gwaith digonol o ystyried anghenion cyfnewidiol a niferoedd y plant, yn ogystal â lleoliadau sesiynol yn methu â chynnig gwaith amser llawn mewn egwyddor. Mewn achosion eraill, nododd rheolwyr lleoliadau fod oriau gwaith hir neu oriau gwaith cynnar a hwyr yn anneniadol i ymgeiswyr yn ogystal â darpar ymgeiswyr sy'n ffafrio swyddi rhan-amser. Yn olaf, amlygodd rhai rheolwyr lleoliadau eu bod yn ansicr ynghylch y ffordd orau o hysbysebu wrth chwilio am staff newydd.

4.37 Yn gysylltiedig â hyn, pan ofynnwyd a oedd eu lleoliadau wedi profi unrhyw heriau ychwanegol wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, ymatebodd 39 y cant nad oedd hyn yn berthnasol i'w lleoliad, gan nad oedd unrhyw heriau na phroblemau. Atebodd 31 y cant arall "Ie", atebodd 19 y cant nad oedd hyn yn berthnasol gan mai

darpariaeth cyfrwng Saesneg yn unig oedd ganddynt, ac roedd yn well gan ddeg y cant beidio â dweud.

4.38 Yn dilyn hynny, gofynnwyd i reolwyr lleoliadau amlinellu'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu yn eu lleoliadau wrth recriwtio staff Cymraeg eu hiaith yn benodol. Roedd yr atebion amlaf yn nodi diffyg ymgeiswyr addas a nifer annigonol o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg ar gyfer swyddi gwag priodol. Mewn achosion lle gwnaeth siaradwyr Cymraeg ymgeisio, yn aml nid oedd ganddynt gymwysterau digonol i fodloni'r cymarebau a osodwyd gan AGC. Tynnodd nifer o reolwyr lleoliadau sylw at y ffaith bod y gystadleuaeth am siaradwyr Cymraeg yn uchel, o ystyried cyflogau uwch yn y sector cyhoeddus am swyddi sy'n aml yn gofyn am rugldeb yn y Gymraeg. Yn hytrach, dywedodd lleoliadau eu bod yn annog siaradwyr Saesneg i wella eu sgiliau Cymraeg.

4.39 Yn olaf, gofynnwyd i reolwyr lleoliadau a oeddent yn cynnal unrhyw waith monitro cyfle cyfartal ar gyfer ymgeiswyr yn eu lleoliad; cadarnhaodd 55% eu bod, a dywedodd 45% nad oeddent yn ymgymryd â'r gwaith hwn. O'r lleoliadau hynny a ymatebodd "Ie" yn flaenorol ynghylch a oedd ganddynt ddata cyfle cyfartal ar ymgeiswyr, dywedodd 75 y cant fod cyfran y ceisiadau i swyddi yn eu lleoliadau o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig yn y 24 mis diwethaf yn sero y cant. Darparodd 17 y cant arall o ymatebwyr werthoedd o rhwng un a deg y cant, atebodd chwech y cant fod y gyfran hon rhwng 15 a 50 y cant, ac ymatebodd dau y cant bod y gyfran hon rhwng 80 a 100 y cant.

## 5. Canfyddiadau o grwpiau ffocws a chyfweliadau ymgysylltu â'r gweithlu

5.1 Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau craidd y cam ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau ffocws a chyfweliadau unigol ymhlith gweithwyr gofal plant a chwarae a rheolwyr lleoliadau, a gynhaliwyd rhwng Medi a Hydref 2023. Yn y canlynol, bydd canfyddiadau'n cael eu trafod fesul maes pwnc, a byddwn yn gwahaniaethu canfyddiadau rhwng y pedwar grŵp gweithlu craidd lle bo modd: gweithwyr chwarae, ymarferwyr gofal plant, gwarchodwyr plant, a rheolwyr lleoliadau. Arweinir trefn y pynciau gan gynllun gwreiddiol y canllaw trafod, ac nid yw'n adlewyrchu trefn pwysigrwydd.

5.2 Ymysg 624 o aelodau'r gweithlu a ymatebodd i'r arolwg ehangach (gweler Adran 4), mynegodd 34 o unigolion ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn ymgysylltiad dilynol trwy gyfweliadau a grwpiau ffocws, gyda 15 ohonynt yn cyfranogi. Recriwtiwyd 14 o gyfranogwyr ychwanegol gyda chymorth sefydliadau rhanddeiliaid yn dosbarthu'r gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymchwil yn uniongyrchol, gan arwain at gyfanswm o 29 aelod o'r gweithlu yn cyfranogi.

### Nodweddion yr ymatebwyr

5.3 Ymhlith y 29 o ymatebwyr a gymerodd ran yn y gwaith maes, roedd saith yn weithwyr chwarae (saith cyfweliad), wyth yn ymarferwyr gofal plant (un cyfweliad, saith yn cymryd rhan mewn grŵp ffocws), saith yn warchodwyr plant (un cyfweliad, chwe chyfranogwr mewn grŵp ffocws), a saith yn rheolwyr lleoliadau ar draws y sector gofal plant a chwarae (un cyfweliad, chwe chyfranogwr mewn grŵp ffocws). Adroddodd ymatebwyr ystod eang o brofiad a blynyddoedd a dreuliwyd yn gweithio yn y sector, yn ymestyn o ddwy flynedd i 35 mlynedd. Ymgysylltwyd â chyfranogwyr yn gweithio ar draws 12 awdurdod lleol gwahanol.[8]

5.4 Disgrifiodd y cyfranogwyr amrywiadau mawr yn eu patrymau gwaith, oriau, a lefelau cyfrifoldeb. Dywedodd gweithwyr chwarae eu bod fel arfer yn gweithio naill ai cyn oriau ysgol fel rhan o glybiau brecwast a/neu ar ôl oriau ysgol mewn clybiau ar ôl ysgol. Bu cyfranogwyr pellach yn gweithio mewn darpariaeth chwarae mynediad

[8] Sir y Fflint, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam, Conwy, Caerdydd, Ynys Môn, Bro Morgannwg, Ceredigion, Powys

agored a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, a nodweddir gan nifer cyfnewidiol iawn o oriau gwaith y dydd a thrwy gydol y flwyddyn.

5.5 Mewn cyferbyniad, roedd staff gofal plant yn gweithio amlaf mewn lleoliadau gofal dydd llawn neu sesiynol, gyda nifer fach o gyfranogwyr yn gweithio mewn lleoliadau penodol i ofalu am blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Dywedodd cyfranogwyr yn y grŵp hwn eu bod fel arfer yn gweithio pum diwrnod yr wythnos a thrwy gydol y rhan fwyaf o wyliau ysgol.

5.6 Roedd gwarchodwyr plant yn arddangos patrymau gweithio mwy hyblyg, wedi'u hysgogi gan anghenion teuluoedd a phlant. Dywedodd sawl cyfranogwr eu bod yn gweithio oriau cyn-ysgol ar gyfer plant o ystod oedran ehangach, gofal yn ystod y dydd i blant dan oed ysgol, yn ogystal â gwasanaethau codi o'r ysgol a gwarchod plant ar ôl ysgol. Roedd patrymau gwaith rheolwyr yn amrywio'n fawr yn ôl y math o leoliad a maint. Roedd rheolwyr yn fwyaf tebygol o adrodd eu bod yn gweithio hyd at ddeg awr y dydd yn eu lleoliad, gan wneud cymysgedd o dasgau gofalu am blant neu ddarparu cyfleoedd chwarae eu hunain, i gwblhau tasgau gweinyddol a bod yn gyfrifol am ffrydiau incwm a chyllid.

**Cyflwr y sector**

*Llwyddiannau a chyfleoedd*

5.7 Ar ddechrau pob cyfweliad a grŵp ffocws, gofynnwyd i'r ymatebwyr am lwyddiannau yn y sector yn ogystal â chyfleoedd i'r gweithlu a lleoliadau. Amlygodd y cyfranogwyr yn gyson y profiad gwerth chweil o weithio gyda phlant a'r dylanwad mawr y mae eu gwaith yn ei gael ar ddatblygiad plant. Mynegodd aelodau o'r gweithlu ar draws y sector a gymerodd ran yn yr ymchwil pa mor dyngedfennol oedd gweithlu cymwysedig a brwdfrydig ar gyfer sgiliau gwybyddol a chymdeithasol plant yn arbennig.

5.8 Adroddwyd bod y galw yn ddigonol ar draws y rhan fwyaf o leoliadau, gyda llawer o leoliadau â rhestrau aros. Dywedodd sawl cyfranogwr fod eu lleoliadau wedi ehangu eu niferoedd o staff a phlant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth ddisgrifio llwyddiannau diweddar, adroddodd cyfranogwyr hefyd am welliannau mewn cydweithrediad ar draws y sector a mwy o ymdrechion i rannu arfer gorau rhwng lleoliadau (e.e., cyrsiau hyfforddi, uwchgylchu deunyddiau, neu ddylunio gweithgareddau chwarae i blant).

*Pryderon a heriau*

5.9 Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ar gyflwr y sector gofal plant a chwarae a sut mae'n gwneud ar hyn o bryd, atebodd pob un o'r 29 o ymatebwyr yn ddieithriad fod y sector mewn cyflwr a oedd yn "achosi pryder" neu mewn cyflwr "drwg", gan bwysleisio pryderon yn ymwneud â cyllid, cyflog a thâl, recriwtio a chadw, yn ogystal â diffyg cydnabyddiaeth o'u gwaith (trafodir yn fanylach o dan "Tâl a buddion", "Cyllid a dderbynnir gan leoliadau", a "Recriwtio a chadw").

5.10 Dywedodd nifer o gyfranogwyr eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol a'u bod wedi'u gadael ar eu pen eu hunain yn ystod pandemig Covid-19, yn ogystal â'u bod yn ysgwyddo cyfrifoldebau sylweddol ar hyn o bryd. Esboniodd aelodau'r gweithlu eu bod yn ystod y pandemig yn aml yn ymgymryd â swyddogaethau gweithwyr cymdeithasol, o ystyried anghenion cynyddol plant neu'r heriau a wynebir gan deuluoedd. Soniwyd am ddiffyg adnoddau cymorth ar gyfer teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd ac ddim yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol "gweithwyr hanfodol" eraill, megis cydweithwyr ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg. Yn ehangach, roedd ymatebwyr yn aml yn pwysleisio canfyddiad o weithredu fel "gwarchodwyr plant" tra'n darparu gwasanaethau hynod fedrus a thyngedfennol i deuluoedd. Yn enwedig ers pandemig Covid-19, dywedodd aelodau'r gweithlu fod lefelau "trawma" a "phryder" wedi cynyddu, gan greu heriau ychwanegol i'w gwaith a bod angen mwy o amser a sylw ar gyfer diogelu effeithiol a chefnogi iechyd meddwl plant.

5.11 At hynny, nododd ymatebwyr, yn enwedig mwyafrif y gweithwyr chwarae, bryderon yn ymwneud ag ansicrwydd swydd a chontractau tymor byr, yn amodol ar natur cyllido eu lleoliad. Er bod hyn yn cael ei drafod amlaf gan weithwyr chwarae, nododd staff mewn lleoliadau gofal plant hefyd gontractau 'dim oriau' fel ffynhonnell o ansicrwydd a phryder ynghylch eu dyfodol proffesiynol (trafodir yn fanwl isod).

5.12 Pan ofynnwyd iddynt am gyflwr y sector, roedd ymatebwyr yn aml yn trafod recriwtio a chadw aelodau o'r gweithlu fel her benodol. Gwelwyd bod adroddiadau o drosiant staff uchel yn effeithio'n negyddol ar blant tra'n cynyddu'r pwysau ar gydweithwyr a rheolwyr lleoliadau. Mynegodd rhai cyfranogwyr y farn, unwaith y byddai'r gronfa bresennol o dalent yn gadael y sector, y byddai'n anodd cyflogi gweithlu mor brofiadol yn y dyfodol (trafodir yn fanylach isod).

**Cymwysterau**

5.13 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am y cymwysterau a oedd ganddynt, a oeddent yn bwriadu ymgymryd ag unrhyw gymwysterau ychwanegol neu a oeddent yn y broses o ennill unrhyw gymwysterau, yn ogystal â'u barn am y cymwysterau presennol. Soniodd y mynychwyr am gymysgedd amrywiol o gymwysterau gwaith chwarae, gofal plant a rheoli, yn ogystal â hyfforddiant yn ymwneud ag angenrheidiau sylfaenol megis cyrsiau cymorth cyntaf rheolaidd a lefelau diogelu, hyfforddi, neu fentora.

5.14 Tynnodd aelodau'r gweithlu a rheolwyr lleoliadau sylw at y ffaith nad oedd myfyrwyr sy'n astudio gofal plant neu waith chwarae yn aml yn ymdrin â sgiliau sylfaenol a hyfforddiant elfennol yn eu cyrsiau ac argymhellwyd y dylid cynnwys y rhain yn y dyfodol. Ymhlith yr enghreifftiau roedd diogelu a chymorth cyntaf sy'n ofynnol i ddechrau gweithio mewn unrhyw leoliad. Cydnabuwyd diffyg gwybodaeth berthnasol am gymwysterau a hyfforddiant gofynnol fel problem ehangach hefyd, lle teimlwyd nad oedd myfyrwyr yn cael digon o wybodaeth am eu hopsiynau ar gyfer cyrsiau a chymwysterau coleg, er iddynt fynegi diddordeb mewn ymuno â'r gweithlu gofal plant a chwarae yn ddiweddarach ar ôl cwblhau eu haddysg. Eglurodd rheolwyr lleoliad y byddai graddedigion ysgol yn lle hynny yn astudio cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiedig heb sylweddoli na fyddai hyn yn eu cymhwyso'n uniongyrchol i ymuno â'r gweithlu gofal plant neu chwarae.

5.15 Roedd y cyfranogwyr yn cytuno y dylid darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau i'r rhai sy'n astudio gofal plant a phynciau cysylltiedig mewn prifysgolion a cholegau. Gallai prentisiaethau sydd wedi'u hariannu'n dda hefyd wella'r broses o recriwtio staff, a chyfeiriwyd at gynlluniau peilot presennol fel Academi Gofalwyr Caerdydd[9]. Nodwyd pe bai myfyrwyr ar gyrsiau gradd heblaw am Lefel 2 swyddogol neu uwch yn dod yn fwy cyfarwydd â realiti'r sector yn ystod eu hastudiaethau, byddai hyn yn eu paratoi'n well drwy roi'r sgiliau angenrheidiol iddynt, yn ogystal â lleihau cyfradd y staff sy'n gadael y sector yn fuan ar ôl dod i mewn iddo, oherwydd disgwyliadau camarweiniol. Roedd rhai aelodau o'r gweithlu o'r farn bod pwyslais y cyrsiau a'r cymwysterau academaidd presennol ar gydrannau a thraethodau academaidd ysgrifenedig yn rhy drwm, gan egluro eu canfyddiad bod y cwricwlwm presennol ar

[9] Academi Gofalwyr Caerdydd.Gweler: Academi Gofalwyr Caerdydd – i mewn i waith

adegau wedi methu â dysgu’r sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar fyfyrwyr i lwyddo ar ôl ymuno â’r sector.

5.16 Nodwyd bod y rhan fwyaf o gymwysterau a dysgu ar hyn o bryd yn digwydd gyda'r nos ac ar benwythnosau, sy'n cael ei weld fel baich sylweddol gan y gweithlu sydd yn aml â chyfrifoldebau gofalu ychwanegol o fewn eu teuluoedd. Teimlwyd bod hyn yn arwain at lai o fyfyrwyr yn manteisio ar gymwysterau, o ystyried y gallai absenoldeb un aelod craidd o staff arwain at gau lleoliad cyfan os nad yw gweddill yr aelodau staff yn gallu bodloni gofynion y gymhareb.

5.17 Eglurodd rheolwyr lleoliad, o gofio’r heriau eang o ran recriwtio a chadw, eu bod hefyd yn aml yn mynd i gostau uchel i ariannu hyfforddiant staff heb gymwysterau digonol, yn enwedig mewn achosion cymorth cyntaf neu gyrsiau hyfforddi diogelu. Mae'r costau hyn yn ymwneud â gorfod ariannu swyddi gwag dros dro tra bod staff hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith oherwydd eu cyrsiau, yn ogystal â chost yr hyfforddiant. Roedd y cyfranogwyr felly yn pwysleisio’r angen am system wedi’i diweddaru o gymwysterau wedi’u hariannu’n llawn gan gynnwys yr holl hyfforddiant gofynnol fel modd o gymell a galluogi pobl i ymuno â’r gweithlu.

5.18 Pwysleisiodd rheolwyr lleoliadau hefyd, pe bai tâl yn gysylltiedig â chymwysterau, ochr yn ochr â darparu cyllid ar gyfer ymgymryd â chymwysterau o'r fath, y byddai hyn yn gymhelliant i ennill lefelau cymhwyster pellach yn y tymor hir.

5.19 Eglurodd y mynychwyr ymhellach fod y system gymwysterau bresennol ar brydiau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt feddu ar gymwysterau anaddas i’w gwaith, gydag enghreifftiau wedi’u dyfynnu mewn gwaith gyda phlant ag ADY neu anghenion cymhleth, megis achosion o awtistiaeth. Dywedodd y cyfranogwyr fod angen iddynt feddu ar gymhwyster gwaith chwarae er eu bod yn sylfaenol angen gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â’r grŵp hwn o blant. Yn lle hynny, awgrymwyd y dylid ystyried cymwysterau arbenigol.

5.20 Bu gwarchodwyr plant hefyd yn trafod cymwysterau a mathau eraill o hyfforddiant gorfodol i weithredu eu busnes. Nodwyd bod hyfforddiant gorfodol fel cymorth cyntaf yn aml yn ddrud iawn ac nad oedd ar gael yn eu hardaloedd lleol, a bod angen teithio ar benwythnosau yn rheolaidd i loywi eu gwybodaeth.

### Sgiliau Cymraeg a phrofiadau o weithio trwy gyfrwng y Gymraeg

5.21 Pan holwyd ymatebwyr am eu defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd, nododd ymatebwyr ystod eang o lefelau cynefindra a defnydd o'r Gymraeg. Er bod rhai yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn ei defnyddio yn unig yn eu gwaith gyda phlant a rhieni, dywedodd eraill nad oeddent yn siarad unrhyw Gymraeg.

5.22 Yn nodedig, eglurodd nifer o aelodau staff a rheolwyr, er nad oedd nifer o'u staff neu gydweithwyr yn gwbl rugl yn y Gymraeg, eu bod yn aml wedi meithrin sgiliau Cymraeg perthnasol drwy gydol eu gyrfa, gan eu galluogi i gyflwyno'r iaith i'r plant (e.e. trwy ganeuon, ymadroddion, a geiriau sylfaenol). Un gwahaniaeth a wnaed yn aml gan reolwyr ac aelodau'r gweithlu oedd nad oedd staff yn teimlo eu bod wedi'u harfogi i gyfathrebu â rhieni yn Gymraeg, er eu bod yn aml yn hyderus yn gweithio gyda phlant yn Gymraeg. Honnodd cyfranogwyr felly na ddylai hyder wrth ryngweithio ag oedolion fod yn gyfystyr â'u gwaith gyda phlant, ac y dylid gwerthuso eu sgiliau a'u perfformiad ar wahân.

5.23 Roedd rheolwyr lleoliadau hefyd yn trafod yn aml anawsterau difrifol o ran recriwtio a chadw staff sy'n siarad Cymraeg. O ran cadw, esboniwyd yn aml nad oedd cyflogau'n ddigonol i gymell staff i aros yn eu swyddi, o ystyried swyddi eraill lle gallent elwa o'u sgiliau iaith (roedd enghreifftiau a grybwyllwyd yn cynnwys gwaith mewn ysgolion neu awdurdodau lleol). Wrth drafod recriwtio, esboniodd rheolwyr eu bod yn aml yn derbyn nifer annigonol o geisiadau cymwys am swyddi Cymraeg eu hiaith ac felly'n methu â chyflenwi digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant. Tynnodd y rheolwyr sylw at y diffyg cymhellion yn deillio o gyflog annigonol a dim manteision o ganlyniad i gymwysterau ychwanegol a enillwyd, gan gynnwys gwell sgiliau Cymraeg neu hyfforddiant yn y Gymraeg.

### Tâl a buddiannau

5.24 Yn ystod cyfweliadau a grwpiau ffocws, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn teimlo bod eu tâl yn adlewyrchu'r sgiliau a'r cyfrifoldebau a oedd yn rhan o'u gwaith. Heb eithriad, dywedodd pob cyfranogwr a atebodd y cwestiwn nad oeddent yn teimlo bod eu gwaith yn cael ei adlewyrchu yn eu tâl nac unrhyw fuddion ychwanegol os yn berthnasol, gan greu neges glir gan aelodau'r gweithlu a gymerodd ran yn y drafodaeth. Amlygodd mwyafrif y cyfranogwyr fod tâl annigonol yn rheswm craidd dros staff yn gadael y sector.

5.25 Roedd staff gofal plant a gweithwyr chwarae’n aml yn adrodd eu bod yn cael yr isafswm cyflog neu ychydig yn uwch na’r isafswm cyflog yr awr nad oedd, yn eu barn nhw, yn adlewyrchu eu hatebolrwydd a’u cyfrifoldeb dros blant ifanc, na gofynion corfforol ac emosiynol eu swyddi, a oedd yn cynnwys oriau gwaith hir. Eglurodd gwarchodwyr plant yn arbennig fod angen iddynt weithredu hyd eithaf eu gallu bob amser er mwyn parhau i fod yn economaidd hyfyw ac yn aml ni allent wneud darpariaethau ar gyfer amser i ffwrdd yn sâl, oherwydd eu statws hunangyflogedig. Pwysleisiwyd pwysigrwydd eu gwaith i ddatblygiad y plant a oedd, yn eu barn nhw, yn “hynod bwysig” ac felly yn haeddu cydnabyddiaeth trwy dâl uwch.

5.26 Enghreifftiau a grybwyllwyd sawl gwaith oedd y cyflogau uwch fesul awr a delir gan gadwyni archfarchnadoedd neu swyddi cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion, y teimlwyd oedd y ffactor unigol mwyaf o ran staff yn gadael y sector.

**Yr ariannu a dderbynnir gan y lleoliadau**

5.27 Yn ystod y cyfweliadau a’r grwpiau ffocws, gofynnwyd i reolwyr lleoliadau a oedd yn cymryd rhan sut roedd eu lleoliadau’n cael eu hariannu a sut roedd hyn yn effeithio ar redeg eu lleoliadau. Gan amlaf, nododd y cyfranogwyr ar draws bob math o leoliad yr anawsterau o redeg lleoliad economaidd hyfyw tra'n talu o leiaf lefel isafswm cyflog i staff, neu ychydig yn uwch. Roedd cyfrifon manwl yn amrywio’n fawr, o ystyried bod rhai mynychwyr yn gweithio mewn lleoliadau cofrestredig o fewn elusennau, rhai’n darparu gwasanaethau o fewn ysgolion, a rhai’n gweithio fel gwarchodwyr plant hunangyflogedig, mewn meithrinfeydd dydd preifat, a mwy. Nododd rheolwyr lleoliadau deimladau o gyfaddawd cyson: ar y naill law, cadw ffioedd yn isel i rieni yn ystod yr argyfwng costau byw presennol, gan gydnabod bod teuluoedd yn cael trafferth cynyddol gyda chost gofal plant yn arbennig. Ar y llaw arall, roeddent yn cydnabod bod staff yn yr un modd yn cael trafferth gyda chostau byw, ac roedd cyflogau’n bwysig i gymell aelodau'r gweithlu i aros yn y sector. At hynny, nododd rheolwyr lleoliadau nad yw cyfraddau ariannu fesul lle ar hyn o bryd yn talu am unrhyw gostau ychwanegol a geir gan leoliadau, megis atgyweiriadau neu brynu offer angenrheidiol.

5.28 Pwynt arall a godwyd gan nifer o reolwyr lleoliadau a gymerodd ran oedd yr heriau o ran gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer plant ag ADY neu anghenion cymorth cymhleth eraill. Er enghraifft, adroddodd un lleoliad eu bod yn codi yr un tâl ar rieni

plant ag anghenion cymhleth â’r hyn roeddent yn godi ar rieni phlant eraill yn y lleoliad, er gwaethaf y straen ychwanegol ar y gyllideb yr oedd darparu cymorth ADY yn ei greu. Cytunodd y cyfranogwyr fod “angen brys” i ddarparu mwy o ffynonellau cyllid penodol i gyflogi mwy o staff a galluogi cymorth wedi’i deilwra i’r grŵp hwn o blant, yn ogystal â lleddfu’r pwysau ar staff drwy ganiatáu cyllid ychwanegol fel y gellir lleihau cymarebau yn ystod holl oriau’r presenoldeb y plant, fel y gallai staff ganolbwyntio'n unigol ar eu hanghenion. Esboniodd cyfranogwyr hefyd, hyd yn oed pan fo rhywfaint o arian ychwanegol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cymorth un-i-un, ar adegau efallai mai dim ond am 20 awr yr wythnos oedd hyn, gyda lleoliadau’n gorfod talu’r costau am yr oriau sy’n weddill os na ellir gofalu am blant yn ddiogel drwy'r ddarpariaeth arferol.

5.29 Pan ofynnwyd iddynt am fecanweithiau ariannu, nododd rhai rheolwyr lleoliadau heriau a achosir gan ddulliau talu gwahanol, gan gynnwys sut y gwneir taliadau am ofal plant a ariennir gan y llywodraeth.[10] Eglurodd rheolwyr lleoliad fod cyflwyno'r broses lle mae arian yn cael ei drosglwyddo mewn ôl-ddyledion ar ôl cyflwyno hawliadau yn peri heriau ychwanegol i'w cyllid a'u cynaliadwyedd ariannol. Canmolwyd y platfform ar gyfer gwneud cais am arian am leoedd drwy'r Cynnig Gofal Plant fel un sy’n gweithio’n dda ac yn effeithlon, gyda throsglwyddiadau’n cael eu gwneud heb fawr o oedi. Mewn cyferbyniad, nodwyd pryderon ynghylch y taliadau gan awdurdodau lleol ar gyfer lleoedd a ariennir drwy Dechrau’n Deg, gan nodi oedi cyson a phryderon ynghylch modelau gweithredu gwahanol ar draws awdurdodau lleol.[11] At hynny, nododd lleoliadau heriau helaeth gyda rhieni’n cael cyllid naill ai drwy gredyd cynhwysol neu gyllid myfyrwyr ac yn aml yn methu â thalu’r lleoliadau, er eu bod yn cydnabod efallai nad yw hyn yn dod o fewn cylch gwaith polisi gofal plant Llywodraeth Cymru. Yn lle hynny, dywedwyd y byddai lleoliadau'n cael eu gadael gyda chostau a dim ffordd effeithiol o hawlio'r arian, sydd wedi gadael lleoliadau yn wynebu dyled ariannol sylweddol. Awgrymodd rheolwyr lleoliad y dylid anfon arian i leoliadau yn uniongyrchol, neu drwy blatfform fel sy’n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y Cynnig Gofal Plant, lle mae lleoliadau’n cyflwyno’u hawliadau am y gofal a ddarperir. Dywedodd cyfranogwyr eraill nad oedd

[10] Mae'r adran yn rhoi crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn rhagweithiol gan ymatebwyr. Mae manylion y drafodaeth hon y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn a dylid cynnal mwy o ymchwil yn y dyfodol, gan gynnwys ystod ehangach o randdeiliaid.

[11] Dylid nodi bod yr ymchwil hwn yn ymwneud yn bennaf ag aelodau'r gweithlu mewn lleoliadau trydydd sector a sector preifat. Felly dylid ceisio barn awdurdodau lleol mewn ymchwil yn y dyfodol er mwyn darparu persbectif cytbwys.

eu lleoliad yn derbyn plant o deuluoedd oedd yn derbyn cymorth ariannol o'r fath oni bai bod y taliadau gofal plant yn cael eu gwneud ymlaen llaw. I grynhoi, pwysleisiodd rheolwyr lleoliadau bwysigrwydd systemau talu effeithlon ar gyfer yr holl ofal plant a ariennir gan y llywodraeth, o ystyried yr effaith ar allu lleoliadau i ddarparu sicrwydd swydd tymor hwy i aelodau staff, trosi contractau 'dim oriau' yn gyflogaeth ran-amser neu amser llawn, yn ogystal â sicrhau parhad busnes ar gyfer lleoliadau a reolir yn breifat a oedd yn cael ei ystyried yn hanfodol i ddarpariaeth lleoedd Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant ar draws awdurdodau lleol.

5.30 Wrth drafod yr effaith a gafodd ariannu ar redeg eu lleoliadau, roedd y rheolwyr lleoliadau a gymerodd ran yn cytuno y byddent wedi dymuno i Lywodraeth Cymru ymgynghori â nhw ar newidiadau blaenorol i amseroedd talu a strwythurau ar gyfer gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru (e.e., amlder ôl-ddyledion a ffyrdd o gyflwyno ceisiadau). Eglurwyd ymhellach mewn cyfweliadau y dylai newidiadau fod wedi cael eu gweithredu yn yr un modd ar draws gwahanol awdurdodau lleol, o ystyried bod gofal plant yn "fater cenedlaethol". Eglurodd rheolwyr lleoliadau a gymerodd ran pa mor berthnasol yw ffrydiau ariannu i gynaliadwyedd eu lleoliadau a sefydlogrwydd ariannol, gan effeithio felly ar benderfyniadau ynghylch recriwtio staff newydd neu ystyried cau lleoliadau mewn achosion o ddyled.

5.31 Trafododd gwarchodwyr plant yn fanwl eu darpariaeth o leoedd a ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg, yn ogystal â goblygiadau hyn ar eu gallu i barhau i weithredu yn y sector. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyfraddau ariannu ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg, a bennir gan awdurdodau lleol fesul awr a phlentyn, yn cael eu capio fesul wythnos. Mae llawer o warchodwyr plant felly yn gweithredu ar golled i bob pwrpas o'i gymharu â gwarchod plant o deuluoedd sy'n talu'n breifat. Cytunodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws y byddai adolygiad rheolaidd a chynnydd mewn cyllid fesul lle ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant yn hanfodol i oroesiad eu busnesau, o ystyried na chaniateir i leoliadau godi ffioedd atodol ar rieni am yr oriau darpariaeth a ariennir gan y llywodraeth. Wrth drafod cyllid, canmolodd gwarchodwyr plant argaeledd ystod o grantiau i ailfodelu rhannau craidd o'u gweithle – yn aml eu cartrefi – i anghenion gofalu am blant. Fodd bynnag, nodwyd pryderon ynghylch y ffaith bod gwahanol benderfyniadau a grantiau ar gael ar draws awdurdodau lleol ac mai ychydig o amser oedd ar gael i gwblhau gwaith papur gofynnol.

5.32 Pan ofynnwyd iddynt am gyllid eu lleoliadau a sut yr effeithiodd hyn ar y ffordd roedd eu lleoliadau yn cael eu rhedeg, adroddodd lleoliadau chwarae yn arbennig eu bod wedi gwneud ceisiadau am gyllid allanol, gydag enghreifftiau a grybwyllwyd yn cynnwys arian y Loteri Genedlaethol yn ogystal â sefydliadau elusennol eraill. Wrth drafod cyllid grant a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru i leoliadau chwarae, mynegodd sawl cyfranogwr bryderon bod grantiau'n benodol i leoliad ac felly'n golygu goblygiadau o ran cynaliadwyedd hirdymor y lleoliad mewn achosion o adeiladau a ail-bwrpasir, gwaith adnewyddu neu droi allan. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu, mewn achos o leoliadau yn gorfod symud eiddo (e.e., oherwydd cau ysgol neu gynnydd mewn rhenti y tu hwnt i lefel gynaliadwy), na fyddai'r lleoliad chwarae'n gallu gwneud cais am yr un grant i adnewyddu lleoliad gwahanol am gyfnod penodol o amser.

5.33 Yn ystod y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, roedd aelodau'r gweithlu ar draws y mathau o leoliad yn aml yn trafod goblygiadau ehangu Dechrau'n Deg yn eu lleoliadau, yn enwedig ehangu Cam 2 sy'n cynnwys yr elfen gofal plant yn unig. Er eu bod yn croesawu ehangu'r rhaglen a'r uchelgais i ddarparu gofal plant i bob plentyn dwy oed, nododd ymarferwyr a rheolwyr lleoliadau fel ei gilydd bryderon ynghylch eu gallu i ddarparu gofal o ansawdd uchel i bob plentyn cymwys. Gan gyfeirio'n benodol at Gam 2 yr ehangu, cyfeiriodd rheolwyr lleoliadau at ddiffyg ymgysylltiad ymwelwyr iechyd neu therapyddion lleferydd ac iaith, yr ystyriwyd bod cyfnewid gwybodaeth â nhw o dan raglen graidd Dechrau'n Deg yn werthfawr iawn. Eglurodd y cyfranogwyr ymhellach fod eu gallu i ddarparu gofal plant o ansawdd da a chefnogi datblygiad plant gyda dull wedi'i deilwra i bob plentyn yn gyfyngedig, o ystyried y diffyg cymorth i deuluoedd yn fwy cyffredinol, a'r diffyg gwybodaeth gefndir ddigonol a dderbyniwyd am blant cyn iddynt fynychu'r lleoliad am y tro cyntaf. Teimlwyd bod hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal a ddarperir ac yn gosod beichiau ychwanegol ar aelodau staff. Dadleuodd aelodau'r gweithlu ymhellach y gellid, yn eu barn nhw, dod â chyllid ar gyfer lleoedd i blant dwy oed i mewn ar wahân yn hytrach na thrwy Dechrau'n Deg, gan fod hyn wedi achosi dryswch ymhlith lleoliadau a rhieni.

*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*

5.34 Un maes craidd a drafodwyd yn ymwneud ag ariannu a chostau oedd y gofynion a osodwyd gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC). Roedd cyfranogwyr mewn gofal dydd sesiynol a llawn amser, yn ogystal â gwarchodwyr plant, yn aml yn trafod

cymarebau ar gyfer plant o oedrannau penodol mewn perthynas â chymwysterau staff.

5.35 Roedd gwahaniaeth barn ynghylch y gymhareb 1:4 rhwng staff a phlant dwyflwydd oed, gyda rhai cyfranogwyr yn egluro mai'r gymhareb hon oedd y lleiafswm i sicrhau diogelwch plant heb orlwytho staff. Anghytunodd cyfranogwyr eraill, gan nodi nad oedd y cymarebau presennol yn economaidd hyfyw i leoliadau, yn enwedig os ydynt yn darparu lleoedd a ariennir drwy Dechrau'n Deg neu'r Cynnig Gofal Plant yn hytrach na bod rhieni'n talu'n breifat. Nododd sawl aelod o'r gweithlu hefyd fod gan blant anghenion ychwanegol yn aml, ac os felly, teimlid bod y cymarebau perthnasol yn anaddas.

5.36 Nododd gweithwyr chwarae bryderon ynghylch cofrestru darpariaeth chwarae mynediad agored, megis faniau chwarae mewn gwahanol leoliadau. Esboniodd y cyfranogwyr y byddai'n rhaid i bob lleoliad o'r fath gael ei gofrestru ar wahân, a fyddai'n arwain at ystyried cwtogi ar amser y ddarpariaeth i osgoi cofrestru a thrwy hynny leihau beichiau gweinyddol. Yn yr un modd, nododd cyfranogwyr eraill bryderon bod unedau cofrestru yn benodol i le a lleoliad. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu bod eu lleoliadau wedi gorfod ailgofrestru o'r newydd os cawsant eu gorfodi i symud i leoliad gwahanol, neu os oeddent yn newid eu cyfansoddiad (e.e., dod yn elusen gyda bwrdd cynghori). Yn hytrach, awgrymwyd lleihau'r beichiau sy'n deillio o newidiadau o'r fath, a darparu llwybr symlach ar gyfer ailgofrestru.

5.37 Nododd gwarchodwyr plant bryderon ychwanegol ynghylch cofrestru a chymarebau sy'n benodol i'w rôl yn y sector. Nododd sawl gwarchodwr plant a gymerodd ran yn yr ymchwil fod oedi wrth gofrestru, ac os yw gwarchodwr plant yn ceisio mynd i mewn i'r sector a chofrestru, dylai hyn fod yn gyflym ac yn effeithlon, gydag ymatebwyr yn cyfeirio at oedi o 8-12 mis mewn rhai achosion. Serch hynny, roedd y pryder creiddiol a nodwyd gan warchodwyr plant yn ymwneud â chymarebau, a galwodd mwyafrif y gwarchodwyr plant a gymerodd ran am fwy o hyblygrwydd. Awgrymwyd y dylid defnyddio asesiadau risg unigol, a dylai fod yn bosibl mynd ychydig yn uwch na'r cymarebau mewn amgylchiadau eithriadol (e.e., yn ystod y gorgyffwrdd amser byr hyd nes bod plant yn cael eu nôl o'r lleoliad). Roeddent yn pwysleisio y dylid addasu uchafswm dyddiol y plant i realiti patrymau gwaith gwarchodwyr plant, a oedd yn aml yn cynnwys cymysgedd o oedrannau cyn ac ar ôl ysgol, mynd â plant i'r ysgol a'u nôl nhw oddi yno, yn ogystal â gofal yn ystod y dydd. O ran arolygiadau, nododd gwarchodwyr plant fod yr iaith a ddefnyddiwyd yn

aml yn teimlo’n “llym” ac yn dangos “diffyg gwerthfawrogiad”, trwy ddefnyddio termau fel digonol/annigonol.

5.38 Nododd y rheolwyr lleoliadau bryderon bod arolygiadau yn aml yn dibynnu ar “lwc” gydag arolygwyr, ac ar hwyliau’r plant ar y diwrnod penodol dan sylw. Dywedodd aelodau'r staff, os oedd un neu nifer o blant yn cael diwrnod anodd, bod hyn wedi dylanwadu ar arolygiadau i'r graddau nad oedd arolygiadau o'r fath yn adlewyrchu ansawdd a sgiliau'r lleoliad yn ddigonol. Yn lle hynny, argymhellodd rheolwyr lleoliadau y dylai arolygiadau hefyd gydnabod yr hyn y gall lleoliadau ei wneud yn dda, yn hytrach na'r hyn sydd o bosibl yn ddiffygiol.

5.39 Yn olaf, teimlai rhai cyfranogwyr fod ysgolion dan lai o bwysau i gyflawni gofynion mor llym â'r rhai a osodir gan AGC ar gyfer gofal plant o ran cymarebau a phasio arolygiadau, gan arwain at deimladau o dan-werthfawrogiad a diffyg “chwarae teg” rhwng ysgolion a lleoliadau gofal plant, yn arbennig.

**Recriwtio a chadw staff**

5.40 Un pryder craidd a leisiwyd gan aelodau’r gweithlu, yn ogystal â rheolwyr lleoliadau, oedd “heriau difrifol” gyda recriwtio a chadw staff. Disgrifiodd sawl cyfranogwr mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws yr argyfwng presennol fel “y gwaethaf a welsom erioed”, gan gyfeirio’n bennaf at recriwtio, tra bod adroddiadau am gadw staff yn amrywio’n fwy sylweddol ar draws lleoliadau. Eglurodd rheolwyr lleoliadau fod llawer o'r ceisiadau a dderbyniwyd ganddynt gan staff heb gymhwyso na fyddai'n caniatáu iddynt gynnal y cymarebau gofynnol, ac felly roeddent yn annigonol i lenwi'r bylchau a wynebir pan fo staff profiadol yn gadael.

5.41 Pan ofynnwyd iddynt am strategaethau penodol ar gyfer hybu recriwtio, teimlai’r mynychwyr eu bod “wedi rhoi cynnig ar bopeth”, yn amrywio o gydweithio â cholegau lleol a chynnig lleoliadau, i hysbysebion, allgymorth cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu mewn ysgolion, a chysylltu ag aelodau staff blaenorol a oedd wedi gadael y sector. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau nad oedd ganddynt strategaeth neu darged penodol yn eu lleoliad, ond yn bennaf eu bod yn ceisio cyrraedd unrhyw aelod posibl o'r gweithlu â chymwysterau perthnasol. Trafodwyd hyn yn fanwl pan ofynnwyd i gyfranogwyr am strategaethau recriwtio i gynyddu amrywiaeth o fewn lleoliadau staff. Nododd rheolwyr lleoliadau mai eu blaenoriaeth gyntaf oedd llenwi swyddi gwag, gan nodi bod recriwtio staff gwrywaidd neu aelodau o’r gweithlu o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â

staff niwroamrywiol, “yn fater o lwc”. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod yn eang bwysigrwydd hanfodol gweithlu amrywiol, yn enwedig eu swyddogaeth fel modelau rôl i blant a’u cyfraniad cadarnhaol at ddiwylliant staff. Yn gysylltiedig, nododd rhai cyfranogwyr eu pryderon bod gwrth-hiliaeth yn “ôl-ystyriaeth” ar hyn o bryd yn y sector, a phan roedd pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gweithio mewn lleoliadau, anaml yr oeddent yn cael eu gweld mewn rolau rheoli.

5.42 Wrth drafod strategaethau ar gyfer cadw staff, esboniodd rheolwyr eu bod yn aml yn gwneud eu gorau i gynnig hyblygrwydd a mân welliannau mewn cyflogau staff, hyd yn oed os ar draul eu llwyth gwaith eu hunain fel rheolwyr. Dywedodd cyfranogwyr ar draws yr holl grwpiau gweithlu fod cyflog a thâl yn rheswm craidd dros i staff adael lleoliadau a’r sector yn gyffredinol, wedi’i ddilyn gan heriau o ran cael contractau parhaol neu gael cynnig digon o oriau gwaith, a llawer o bwysau o ystyried cyllid annigonol yn y sector. Nodwyd felly ei bod yn hanfodol dangos gwerthfawrogiad agored o staff, a chytunodd y cyfranogwyr y dylid ceisio darparu ar gyfer anghenion aelodau’r gweithlu; er enghraifft, dyddiau byrrach neu wythnosau gwaith pedwar diwrnod, rhag ofn y byddai ganddynt gyfrifoldebau gofalu eraill. At hynny, nodwyd codiadau Credyd Cynhwysol diweddar fel ffactor a gyfrannodd at aelodau staff presennol yn gofyn am ostyngiad mewn oriau gwaith neu’n gadael gwaith yn gyfan gwbl. O ystyried addasiadau diweddar mewn taliadau, adroddwyd bod staff mewn perygl o fynd y tu hwnt i’r trothwy incwm a bod yn waeth eu byd petaent yn colli budd-daliadau Credyd Cynhwysol. Nododd gweithwyr chwarae her ychwanegol yn eu hachos nhw oherwydd natur dymhorol eu gwaith. Eglurodd y grŵp cyfranogwyr hwn eu hanawsterau wrth adeiladu gweithlu medrus hirdymor, o ystyried bod gan y rhan fwyaf o weithwyr chwarae (e.e., y rhai sy’n gweithio mewn cynlluniau gwyliau haf) swyddi eraill yn ystod y tymor.

5.43 Nododd aelodau’r gweithlu a rheolwyr lleoliadau fel ei gilydd ysgolion fel y cystadleuwyr canolog ar gyfer aelodau’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, gan ddarparu nifer o fanteision sy'n cymell staff i adael y sector gofal plant a chwarae. Soniodd mynychwyr yn aml am well oriau gwaith mewn ysgolion a gwyliau haf hirach. At hynny, soniodd y cyfranogwyr am archfarchnadoedd a manwerthwyr fel rhai sy’n talu cyflogau gwell am lai o gyfrifoldeb ac felly’n cymell staff i adael y sector. Roedd pob maes o golli staff a enwyd yn ymwneud ag asiantaethau yr ystyriwyd eu bod yn talu cyflogau gwell am lenwi lleoliadau ar sail angen. Beirniadodd y rheolwyr lleoliadau y model o orfod defnyddio asiantaethau i lenwi

bylchau yng ngweithlu’r lleoliadau pan oedd swyddi gwag neu aelodau staff i ffwrdd yn sâl, gan amlygu anfanteision ariannol y model hwn yn ogystal â’r effeithiau negyddol ar blant sy'n dod yn hoff o staff dros dro.

**Sut roedd cyfranogwyr yn gweld eu dyfodol personol a dyfodol y sector**

5.44 Gofynnwyd i gyfranogwyr sut yr oeddent yn gweld eu dyfodol personol yn y sector, yn ogystal â dyfodol eu lleoliadau yn achos rheolwyr gofal plant a gwaith chwarae. Roedd yr atebion yn amrywio’n fawr o fynegiant o optimistiaeth a gwytnwch, i amheuon ynghylch a fyddai lleoliadau’n gallu aros ar agor dros y pum mlynedd nesaf, i adroddiadau am leoliadau mewn dyled neu’n debygol o gau. Roedd rheolwyr lleoliadau yn arbennig o debygol o bwysleisio costau uchel rhedeg eu lleoliadau er gwaethaf cyllid annigonol, yn ogystal ag effaith yr argyfwng costau byw ar aelodau staff a rhieni.

5.45 Roedd nifer o ymatebwyr ar draws gofal plant, gwaith chwarae a gwarchod plant hefyd yn lleisio pryderon ynghylch methu â chystadlu ag ysgolion. Yn benodol, cyfeiriwyd at ddarpariaeth gofal plant a chwarae i blant o ddwy oed ymlaen. Nododd rhai lleoliadau bryderon ynghylch eu cymeriant, o ystyried y prisiau is i rieni mewn lleoliadau ysgol. Roedd enghraifft gysylltiedig a nodwyd gan aelodau’r gweithlu yn ystyried newidiadau yn y nifer o blant a dderbynnir gan leoliadau nad oeddent yn darparu lleoedd a ariennir gan Dechrau’n Deg neu’r Cynnig Gofal Plant. Eglurwyd yn y cyfweliadau y gallai model darpariaeth meithrinfeydd dydd neu warchodwyr plant o'r fath symud yn fuan tuag at blant dan ddwy oed. Esboniodd aelodau’r gweithlu a oedd yn cymryd rhan y byddai teuluoedd yn hytrach yn dewis cymryd lleoedd mewn lleoliadau eraill a ariennir drwy Dechrau’n Deg a’r Cynnig Gofal Plant. Mynegodd lleoliadau nad ydynt yn cynnig lleoedd wedi’u hariannu i blant dros ddwy oed bryder y byddent yn derbyn mwyafrif o geisiadau am leoedd i blant dan ddwy oed, a fyddai’n gofyn am gymarebau uwch o staff i blant ac felly’n achosi pryderon ynghylch hyfywedd economaidd yn y dyfodol, o ystyried y ffocws hwn ar blant iau.

**Awgrymiadau ar gyfer y dyfodol**

5.46 Nododd cyfranogwyr ar draws grwpiau ffocws a chyfweliadau nifer o awgrymiadau ar gyfer y dyfodol a sut i gefnogi'r sector. Yn gyntaf, pwysleisiodd aelodau’r gweithlu ar draws gofal plant, gwaith chwarae, a gwarchod plant bwysigrwydd ymgynghori â nhw cyn gwneud newidiadau polisi neu unrhyw addasiadau wrth weithredu polisi (e.e., ehangu Dechrau’n Deg, newid cymarebau, neu newidiadau i ddulliau talu ar

gyfer y Cynnig Gofal Plant neu Dechrau'n Deg). Teimlwyd bod angen mwy o dryloywder ynghylch newidiadau polisi a dulliau talu i wneud i aelodau’r gweithlu deimlo eu bod yn cael eu cydnabod a’u parchu, yn ogystal â chaniatáu i leoliadau addasu'n fwy hyblyg i newidiadau sy’n dod i mewn.

5.47 Yn ail, pwysleisiodd y mynychwyr fod angen mwy o hyblygrwydd o ran cymwysterau, cymarebau, a galluogi pobl i ymuno â'r sector neu ailymuno â hi yn hawdd, o ystyried bod y prinder staff presennol yn debygol o waethygu dros amser. Pwysleisiodd sawl aelod o’r gweithlu a rheolwyr lleoliadau y byddai galluogi mynediad haws at brentisiaethau a ariennir, yn ogystal â chymwysterau a hyfforddiant (yn ariannol ac o ran dwysedd amser), yn cefnogi lleoliadau’n sylweddol i lenwi eu swyddi gwag. Nododd y cyfranogwyr hefyd gysylltiad uniongyrchol rhwng y dull hwn o gymell unigolion i ymuno â'r sector ac adroddiadau cyfredol am ddiffyg sgiliau ymarferol gan newydd-ddyfodiaid.

5.48 Yn drydydd, roedd rheolwyr lleoliadau yn enwedig yn awgrymu mabwysiadu nodweddion o'r polisi gofal plant a chwarae a geir yn Lloegr, lle bod hynny'n llwyddiannus. Enghreifftiau a grybwyllwyd oedd ehangu’r Cynnig Gofal Plant i blant 9 mis oed a chynyddu nifer yr oriau o ofal plant a ariennir ar gyfer plant iau yng Nghymru, gan y byddai’r rhain yn cefnogi teuluoedd ac yn rhoi mwy o sicrwydd ariannol i leoliadau.

## 6. Rhagamcanu’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae

6.1 Datblygwyd model i ragamcanu’r galw am ofal plant a lleoedd chwarae, a’r galw dilynol am y staff gofal plant a’r gweithwyr chwarae sy’n debygol o fod yn angenrheidiol i gynnal unrhyw newidiadau angenrheidiol i’r ddarpariaeth.

6.2 Mae’r rhagdybiaethau a’r dystiolaeth gysylltiedig sy’n sail i’r rhagamcanion hyn wedi’u crynhoi’n fanwl yn Atodiad D.

**Llinell Sylfaen**

6.3 Y llinell sylfaen yw’r nifer presennol o blant ar y llyfrau a nifer y gweithwyr ym mhob math o leoliad o 2023 ymlaen. Daw’r data o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru, sef ffurflen ar-lein y mae pob gwarchodwr plant a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae yn eu cwblhau am eu lleoliad. Mae’r llinell sylfaen yn seiliedig ar y data hwn yn unig, heb unrhyw ragdybiaethau nac addasiadau ychwanegol, ac eithrio addasu’r ffigurau llinell sylfaen i gyfrif am gyfradd ymateb o 91 y cant o SASS 2023.

6.4 Dengys y tabl canlynol nifer y plant ar y llyfrau yn 2023, yn seiliedig ar ddadansoddiad o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (SASS).

**Tabl 2: Plant ar y llyfrau yn ôl math o leoliad**

| Math o leoliad | Nifer o blant ar y llyfrau (2023) | Cyfran o’r cyfanswm lleoliadau |
|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 11,390 | 10% |
| Creche | 285 | >0% |
| Gofal Dydd Llawn | 64,334 | 59% |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 2,994 | 3% |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | 20,938 | 19% |
| Gofal Dydd Sesiynol | 9,302 | 9% |
| **Cyfanswm** | **109,243** | **100%** |

Ffynhonnell: Model Galw Gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae Alma Economics

6.5 Yn 2023, roedd mwyafrif y plant ar y llyfrau (64,334 o blant) wedi'u cofrestru mewn Gofal Dydd Llawn. Y math mwyaf cyffredin nesaf o leoliad oedd Gwarchodwyr Plant a Gofal y Tu Allan i'r Ysgol, gyda 11,390 a 20,938 o blant ar y llyfrau, yn y drefn honno. Roedd creches yn gymharol anghyffredin, gyda dim ond 285 o blant ar y llyfrau i gyd. Roedd cyfanswm o 109,243 o blant ar draws yr holl fathau o leoliad.

6.6 Dengys y tabl canlynol nifer y gweithwyr a gyflogir ym mhob math o leoliad gofal plant a chwarae yn 2023, yn seiliedig ar ddadansoddiad o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (SASS).

**Tabl 34: Nifer y gweithwyr gofal plant a chwarae yn ôl lleoliad yn 2023**

| Math o leoliad | Nifer o staff (2023) | Canran o'r gweithlu cyfan |
|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 820 | 5% |
| Creche | 83 | >0% |
| Gofal Dydd Llawn | 11,695 | 70% |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 163 | 1% |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | 1,982 | 12% |
| Gofal Dydd Sesiynol | 1,894 | 11% |
| **Cyfanswm** | **16,638** | 100% |

Ffynhonnell: Model Galw Gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae Alma Economics

6.7 Yn gyffredinol, roedd dros 16,000 o weithwyr yn y sector gofal plant a chwarae yn ôl data SASS. Gofal Dydd Llawn sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr yn ei leoliad, sef 70 y cant o weithwyr ar draws pob lleoliad.

**Amcangyfrifon o'r galw posibl am leoedd nad ydynt yn cael eu bodloni ar hyn o bryd**

6.8 Mae amcangyfrifon o'r galw posibl am leoedd nad ydynt yn cael eu diwallu gan y sector ar hyn o bryd yn deillio o ddata a adroddwyd yn 'Retention and return: Delivering the expansion of early years entitlement in England'.[12]

6.9 Dylid nodi bod yr amcangyfrifon hyn wedi'u llunio drwy ddefnyddio dwy sail wahanol: (i) ar gyfer Gwarchodwyr Plant, amcangyfrifwyd y galw posibl am leoedd drwy ddefnyddio'r rhagdybiaeth bod tri phlentyn ar gyfartaledd ar restrau aros fesul Gwarchodwr Plant, a (ii) ar gyfer lleoliadau eraill (nid Gwarchodwyr Plant), amcangyfrifwyd y galw posibl am leoedd drwy ddefnyddio rhagdybiaeth o 12 y cant ar gyfer capasiti cyfartalog darparwyr gofal plant preifat i ehangu lleoedd. Dangosir yr amcangyfrifon hyn yn y tabl isod.

[12] Retention and return: Delivering the expansion of early years entitlement in England. Gweler: [Retention and Return: Delivering the expansion of early years entitlement in England — Early Education and Childcare Coalition (earlyeducationchildcare.org)]

**Tabl 4: Y galw posibl am leoedd nad yw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd**

| Math o leoliad | Y galw posibl amcangyfrifedig am leoedd nad yw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd | Y galw posibl am leoedd nad yw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd fel cyfran o leoedd presennol |
|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 2,461 | 22% |
| Creche | 34 | 12% |
| Gofal Dydd Llawn | 7,656 | 12% |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 356 | 12% |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | 2,492 | 12% |
| Gofal Dydd Sesiynol | 1,107 | 12% |

Ffynhonnell: Model Galw Gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae Alma Economics

6.10 Mae'r galw posibl am leoedd gwarchodwyr plant fel cyfran o'r lleoedd presennol yn fwy nag ar gyfer unrhyw fath arall o leoliad – gyda 22 y cant o'r galw posibl a amcangyfrifir am leoedd gwarchodwyr plant heb eu diwallu ar hyn o bryd gan leoliadau gwarchodwyr plant. Ar gyfer pob math arall o leoliad, mae'r galw posibl a amcangyfrifir yn gyfran lai o'r ddarpariaeth bresennol, sef 12 y cant o'r ddarpariaeth bresennol (wedi'i ysgogi gan y rhagdybiaeth a nodir uchod).

**Amcanestyniadau poblogaeth**

6.11 Mae'r model yn defnyddio amcanestyniadau poblogaeth i amcangyfrif y galw a ragwelir am ofal plant a lleoedd chwarae, a'r galw dilynol am weithwyr ar draws pob lleoliad i ddarparu'r lleoedd ychwanegol hyn. Nid yw'r galw a ragwelir yn cynnwys effaith ehangu Dechrau'n Deg.

6.12 Rhagamcanwyd y galw am leoedd a gweithwyr yn y dyfodol drwy ddefnyddio'r ffigurau llinell sylfaen ar gyfer y galw am leoedd a gweithwyr gofal plant ac yna cymhwyso amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer pobl ifanc. Datblygir yr amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau o dueddiadau mewn marwolaethau, ffrwythlondeb a mudo yn y dyfodol. Yna troswyd newidiadau rhagamcanol yn y galw am wasanaethau i newidiadau yn y galw am weithlu, gan ddefnyddio rhagdybiaethau ar y gymhareb gweithwyr i leoedd. Darperir manylion ychwanegol ar sut y cyfrifwyd y gymhareb gweithwyr i leoedd yn Atodiad D.

### Galw am ddarpariaeth gofal plant a chwarae

6.13 Dengys y tabl canlynol y nifer rhagamcanol o blant ar y llyfrau dros bum mlynedd.

**Tabl 5: Rhagamcan o nifer y plant ar y llyfrau**

| Lleoliad | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | % newid 2023-28 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchodwr plant** | 11,390 | 10,952 | 10,292 | 10,507 | 10,509 | 10,610 | -7% |
| **Creche** | 285 | 291 | 292 | 294 | 296 | 296 | 4% |
| **Gofal Dydd Llawn** | 64,334 | 60,447 | 61,724 | 61,747 | 62,341 | 62,617 | -3% |
| **Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored** | 2,994 | 2,958 | 2,923 | 2,888 | 2,825 | 2,735 | -9% |
| **Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** | 20,938 | 20,308 | 19,634 | 18,705 | 18,198 | 17,943 | -14% |
| **Gofal Dydd Sesiynol** | 9,302 | 9,503 | 9,506 | 9,600 | 9,643 | 9,639 | 4% |
| **Cyfanswm** | **109,243** | **104,460** | **104,370** | **103,742** | **103,812** | **103,840** | **-5%** |

Ffynhonnell: Model Galw Gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae Alma Economics

6.14 Yn gyfan gwbl, disgwylir i’r galw am ofal plant ostwng pump y cant ar draws yr holl leoliadau, sy’n adlewyrchu'r cwymp disgwyliedig yn y boblogaeth o blant ifanc. Fodd bynnag, mae'r effaith hon yn amrywio ar draws gwahanol leoliadau. Er enghraifft, disgwylir i Ofal Y Tu Allan i'r Ysgol weld gostyngiad o 14 y cant yn y galw tra bydd Creches a Gofal Dydd Sesiynol yn gweld cynnydd o bedwar y cant yn y galw. Mae'r gwahaniaethau yn y galw rhagamcanol ar draws lleoliadau yn seiliedig ar wahanol lefelau cychwynnol o alw, a gwahanol amcanestyniadau poblogaeth i’r gwahanol grwpiau oedran. Mae gan bob math o leoliad gyfran wahanol o blant o bob grŵp oedran, a rhagwelir y bydd rhai grwpiau oedran yn cynyddu yn fwy nag eraill, gan effeithio ar y rhagamcanion galw.

### Rhagamcanion gweithlu

6.15 Dengys y tabl canlynol newidiadau ymhlyg yn y galw am y gweithlu o ganlyniad i'r newid yn y galw am leoedd. Amcangyfrifwyd y rhagamcanion gweithlu drwy gymryd lefel y galw am ofal plant a ragamcanwyd am leoedd a throsi hynny'n alw am weithlu. Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio'r gymhareb plant-staff ar gyfer pob lleoliad yn 2023 ac yn rhagdybio bod hon yn aros yn gyson. Mae'r senario llinell sylfaen hefyd yn rhagdybio nad oes unrhyw newid yn y lleoedd gwag ar gyfer pob

lleoliad o un flwyddyn i'r llall. Darperir manylion ychwanegol am y rhagdybiaethau modelu a ddefnyddiwyd i ragamcanu'r galw am y gweithlu yn Atodiad D.

**Tabl 6: Newid a ragwelir yn y galw am weithwyr**

| Math o leoliad | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | % newid (2023-2028) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchodwr plant** | 820 | 789 | 741 | 757 | 757 | 764 | -7% |
| **Creche** | 83 | 84 | 84 | 85 | 86 | 86 | 4% |
| **Gofal Dydd Llawn** | 11,695 | 10,988 | 11,221 | 11,225 | 11,333 | 11,383 | -3% |
| **Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored** | 163 | 161 | 159 | 157 | 154 | 149 | -9% |
| **Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** | 1,982 | 1,923 | 1,859 | 1,771 | 1,723 | 1,699 | -14% |
| **Gofal Dydd Sesiynol** | 1,894 | 1,935 | 1,936 | 1,995 | 1,964 | 1,963 | 4% |
| **Cyfanswm** | 16,638 | 15,881 | 16,000 | 15,950 | 16,016 | 16,043 | -4% |

Ffynhonnell: Model Galw Gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae Alma Economics

6.16 Rhagwelir y bydd y galw cyffredinol am weithwyr ar draws pob lleoliad yn gostwng bedwar y cant dros bum mlynedd. Disgwylir i'r gostyngiad mwyaf yn y gweithlu fod mewn Gofal y Tu Allan i'r Ysgol, a rhagwelir y bydd y gostyngiad yn 14 y cant. Rhagamcanir y bydd y galw am weithwyr ym mhob un o'r Creches a lleoliadau Gofal Dydd sesiynol yn cynyddu bedwar y cant erbyn 2028. Mae'r gwahaniaethau yn y galw a ragwelir ar draws lleoliadau yn cael eu gyrru gan wahanol amcanestyniadau poblogaeth o ystyried y grwpiau oedran y mae pob lleoliad yn darparu ar eu cyfer.

6.17 O dan ragdybiaethau sylfaenol, i gefnogi'r gwaith o gyrraedd targedau awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, rydym yn rhagamcanu y byddai angen i nifer y lleoedd gofal plant a chwarae a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu tua 25 y cant erbyn 2028, gan olygu bod angen cynnydd o tua 25 y cant yn nifer y staff sy'n gallu darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ehangu'r elfen gofal plant y rhaglen Dechrau'n Deg**

6.18 Yn ychwanegol at yr amcanestyniadau poblogaeth, mae ehangu'r elfen gofal plant y rhaglen Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed wedi'i fodelu i ddeall yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y galw am leoedd a gofynion cysylltiedig y gweithlu.

6.19 Yn seiliedig ar ragdybiaethau modelu craidd, byddai hyn yn gofyn am gynnydd o tua 20 y cant yn y ddarpariaeth lleoedd erbyn 2027/28 (sy'n cyfateb i tua 20,000 o leoedd) o'i gymharu â llinell sylfaen y model, gan olygu bod angen ehangu staffio o tua 24 y cant o'i gymharu â lefelau llinell sylfaen (cyfwerth â thua 4,000 o staff). Disgwylir i'r cynnydd rhagamcanol mewn staffio fod yn gymesur fwy na'r cynnydd yn y galw am leoedd, gan adlewyrchu rhagdybiaethau ynghylch y gymhareb staff-i-leoedd cymharol ar gyfer y mathau o wasanaethau gofal plant a chwarae yr effeithir arnynt, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaeth gwasanaethau gofal dydd. Byddai'r cynnydd yn y galw am wasanaethau gofal plant a chwarae yn sgil ehangu Dechrau'n Deg yn cael ei wrthbwyso ychydig gan y gostyngiad a ragwelir ym maint y poblogaethau plant sylfaenol ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran.

6.20 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y bydd rhieni yn ymateb i'r broses o ehangu'r elfen gofal plant Dechrau'n Deg. Er mwyn rhoi cyfrif am hyn, rydym yn ystyried sut mae addasu canran y teuluoedd sy'n manteisio ar y cynnig Dechrau'n Deg yn newid y galw rhagamcanol am leoedd gofal plant a'r galw dilynol am weithwyr. Dengys y tabl canlynol y gofynion gweithlu ychwanegol sy'n deillio o ehangu'r elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn seiliedig ar gyfraddau manteisio gwahanol, lle mae 87 y cant yn gyfradd bresennol sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn seiliedig ar ystadegau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru o 2021/22[13].

**Tabl 7: Gweithlu ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg gan y raddfa sy'n manteisio ar y darpariaeth**

| Graddfa sy'n manteisio ar y ddarpariaeth | Gweithlu ychwanegol sydd ei angen yn 2028 (newid % o linell sylfaen y model) |
|---|---:|
| **87% (rhagdybiaeth graidd)** | 24% |
| **60%** | 16% |
| **40%** | 11% |
| **20%** | 5% |

Ffynhonnell: Model Galw Gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae Alma Economics

[13] Dechrau'n Deg: Ebrill 2021 i Fawrth 2022. Gweler: Dechrau'n Deg: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 (Llywodraeth Cymru)

6.21 Fel y dangosir yn y tabl, mae'r staff ychwanegol sydd eu hangen oherwydd ehangu'r elfen gofal plant o Dechrau'n Deg yn sensitif i newidiadau yn y gyfradd fanteisio disgwyliedig. Er enghraifft, bydd y gofynion gweithlu ychwanegol yn haneru'n fras os caiff y gyfradd fanteisio ei haneru hefyd.

6.22 Mae rhywfaint o ansicrwydd hefyd ynghylch pa ganran o deuluoedd sy'n manteisio ar Dechrau'n Deg sydd eisoes yn defnyddio gofal plant hunan-ariannu. Os bydd cyfran uwch o deuluoedd yn cael eu "dadleoli" o ofal plant hunan-ariannu, yn hytrach na'u bod heb ddefnyddio gofal plant o'r blaen, bydd yr effaith ar y galw cyffredinol am leoedd a gweithwyr yn is. Dengys y tabl canlynol y goblygiadau i'r nifer rhagamcanol o blant ar y llyfrau yn 2028 yn seiliedig ar gyfraddau dadleoli gwahanol.

**Tabl 8: Gweithlu ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg gan y raddfa dadleoli**

| Graddfa dadleoli | Gweithlu ychwanegol sydd ei angen yn 2028 (newid % o linell sylfaen y model) |
|---|---|
| **20% (rhagdybiaeth graidd)** | 24% |
| **40%** | 18% |
| **60%** | 12% |

Ffynhonnell: Model Galw Gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae Alma Economics

6.23 Fel y dangosir yn y tabl uchod, mae'r cynnydd disgwyliedig mewn gofynion gweithlu oherwydd ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg hefyd yn cael ei effeithio'n sylweddol gan ragdybiaeth am y gyfradd ddadleoli (gweler Atodiad D am fanylion). Er enghraifft, bydd cynyddu'r gyfradd ddadleoli o 20 y cant i 40 y cant yn arwain at leihau gofynion gweithlu ychwanegol o 24 y cant i 18 y cant.

### Cafeatau a chyfyngiadau

6.24 Dylid nodi bod y canfyddiadau hyn yn destun i nifer o gafeatau a chyfyngiadau ar y dadansoddiad. Yn benodol, mae'r rhagamcanion yn flaengar, ac felly maent yn destun rhywfaint o ansicrwydd, gan adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch sut y byddai rhieni'n ymateb i newidiadau polisi yn y dyfodol (h.y., y nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth), yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch tueddiadau demograffig yn y dyfodol. Mae bylchau allweddol hefyd yn y data a'r dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth gyfyngedig o effaith ar y nifer sy'n manteisio ar newidiadau i raglenni polisi allweddol, ac i ba raddau y bydd unrhyw ddefnydd ychwanegol yn disodli'r

galw am wasanaethau gofal plant a chwarae eraill. Mae hyn yn golygu bod angen gwneud rhagdybiaethau lle bo angen, a allai gyfyngu ar gywirdeb y canlyniad.

6.25 Mae’r galw am ofal plant yn cael ei yrru gan amrywiaeth gymhleth o ffactorau, nad yw nifer ohonynt wedi’u cynnwys yn y model. Mae ffactorau o'r fath yn cynnwys newidiadau i gost gofal plant, incwm rhieni a sefyllfaoedd cyflogaeth, a thirwedd polisi ehangach y llywodraeth (ymhlith ffactorau eraill).

6.26 Mae'r model yn rhagamcanu'r galw am wasanaethau a'r gweithlu yn y dyfodol, ac nid yw'n ceisio modelu effaith y cyfyngiadau ochr-gyflenwad. Yn benodol, mae canfyddiadau’r gwaith maes gyda gweithwyr gofal plant a chwarae yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd heriau o ran gallu cadw a recriwtio digon o staff i fodloni’r galw a ragwelir yn y dyfodol am leoedd o dan ehangu Dechrau’n Deg.

# 7. Dadansoddiad o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

### Ynghylch set ddata LLWR

7.1 Mae set ddata LLWR yn darparu ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar ddarpariaeth ôl-16 (dysgwyr nad ydynt mewn addysg uwch yng Nghymru), y tu allan i chweched dosbarth ysgolion. Mae'r data a gesglir gan Lywodraeth Cymru drwy'r LLWR yn sail i sawl agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys cynllunio, ariannu, monitro a sicrhau ansawdd darpariaeth ôl-16.

7.2 Cynhwysir newidynnau o ddiddordeb ar gyfer deall gweithlu gofal plant a gwaith chwarae'r presennol a'r dyfodol yn y set ddata. I bob dysgwr a gofnodir yn y set ddata, mae hyn yn cynnwys eu lefel a math o gymhwyster, manylion eu cyflogwr (neu os ydynt yn ddi-waith), nodweddion demograffig, a nodweddion economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys a yw'r ymatebwr yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg, a'i oedran, rhyw, ethnigrwydd, awdurdod lleol, statws anabledd, a mwy).[14]

### Ynghylch set ddata LLWR

7.3 Fel rhan o Gam 2 yr ymchwil hwn, dadansoddwyd detholiad o ddata LLWR a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i ddeall nifer a natur y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau oedolion a gwaith chwarae perthnasol. Roedd y data hwn yn rhychwantu'r holl ddysgwyr ôl-16 yng Nghymru a ddechreuodd ar gymhwyster sy'n berthnasol i ofal plant a gwaith chwarae rhwng blynyddoedd calendr 2017 a 2022 (cynhwysol).


### Canfyddiadau o ddadansoddi data LLWR – cyfanswm y cymwysterau a ddechreuwyd

7.4 Mae'r is-adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'n dadansoddiad o set ddata LLWR, sy'n rhoi cipolwg ar y cwestiynau ymchwil a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pynciau y mae'r dadansoddiad yn ymdrin â nhw yn cynnwys cyfanswm nifer y cymwysterau a ddechreuwyd, cyfraddau cwblhau cymwysterau, mathau o gymwysterau a ddechreuwyd, darpariaeth cymwysterau cyfrwng Cymraeg, gallu dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg, a gwasgariad daearyddol y cymwysterau yr ymgymerir â hwy.

[14] Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: llawlyfr cymorth i ddefnyddwyr 2022 i 2023. Gweler: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (Llywodraeth Cymru)

7.5 Dengys Ffigur 22 isod nad oes tuedd glir dros amser yng nghyfanswm nifer y cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022, gyda chyfanswm dechreuadau cymhwyster yn cyrraedd uchafbwynt ym mlwyddyn galendr 2020 cyn gostwng hyd at 2022[15]. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuadau ar gyfer cymwysterau Lefel 2 a Lefel 4 tra gostyngodd y nifer a ddechreuodd gymwysterau Lefel 3 a Lefel 5.

**Ffigur 22: Nifer y cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae a ddechreuwyd, yn ôl lefel cymhwyster (yn ôl blwyddyn galendr)**





Ffynhonnell: Data LLWR (cyfrifon wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf)

[15] Cyflwynir yr holl ddadansoddiadau ar sail blynyddoedd calendr.

7.6 Dengys Ffigurau 23 a 24 y canfuwyd bod y gyfradd cwblhau ar gyfer cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae yn amrywio yn dibynnu ar lefel pob cymhwyster, gyda chyfraddau cwblhau o tua 50 y cant ar gyfer cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3, o'i gymharu â chyfraddau cwblhau o tua deg y cant a 40 y cant ar gyfer cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5 yn y drefn honno.[16] Dylid nodi bod y gyfradd gwblhau is ar gyfer cymwysterau Lefel 4 wedi'i hysgogi'n rhannol gan fod cyfran uwch o gymwysterau Lefel 4 yn barhaus o'i gymharu â lefelau cymwysterau eraill.

**Ffigur 23: Deilliannau cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae a ddechreuwyd, yn ôl lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022)[17]**





Ffynhonnell: Data LLWR (cyfrifon wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf)

[16] Mae'r gyfradd gwblhau wedi'i chyfrifo fel cyfran y cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae a ddechreuwyd ac a gwblhawyd, fel cyfran o'r holl gymwysterau gofal plant a gwaith chwarae a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022.

[17] Mae ffigurau trosglwyddo a adroddwyd hefyd yn arteffact o sut mae cymwysterau sy'n rhychwantu mwy na blwyddyn yn cael eu cofnodi ac felly efallai nad ydynt o reidrwydd yn ymwneud â throsglwyddo i gwrs gwahanol.


**Ffigur 24: Cyfraddau cwblhau ar gyfer cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae, yn ôl lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022)**




Ffynhonnell: Data LLWR

7.7 Mae Ffigur 25 yn dangos bod y mathau mwyaf cyffredin o gymwysterau a ddechreuwyd wedi'u dosbarthu naill ai fel "addysg bellach arall" neu ffurf ar brentisiaeth (gan gynnwys prentisiaethau "Sylfaenol" neu "Uwch").

**Ffigur 25: Nifer y cymwysterau yn ôl math (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng 2018 a 2022)**





Ffynhonnell: Data LLWR (cyfrifon wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf)

7.8 Dengys Ffigur 26 bod mwyafrif y cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae ar bob lefel wedi'u gwneud yn Saesneg yn unig, gyda chyfran y cymwysterau dwyieithog yn amrywio rhwng tua phump a deg y cant yn dibynnu ar lefel y cymhwyster. Cynhaliwyd cyfran sylweddol o gymwysterau hefyd mewn lleoliadau lle'r oedd yr addysg yn cynnwys ychydig bach neu swm sylweddol o'r Gymraeg.


Dengys Ffigur 27 bod cyfran y cymwysterau a ddechreuwyd ac sy'n cynnwys o leiaf ychydig bach o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o tua 20 y cant o'r holl gymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2020, i tua 45 y cant erbyn 2022, wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd yn y nifer o gymwysterau a ddarperir gydag ychydig bach neu swm sylweddol o'r Gymraeg.

**Ffigur 26: Cyfran a nifer y cymwysterau a ddechreuwyd yn ôl lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ôl lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022)**




Ffynhonnell: Data LLWR (cyfrifon wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf)

**Ffigur 27: Cyfran a nifer y cymwysterau a ddechreuwyd yn ôl lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ôl blwyddyn (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022)**





Ffynhonnell: Data LLWR (cyfrifon wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf)

7.9 Dengys Ffigur 28 bod rhwng 30 y cant a 40 y cant o'r cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae a ddechreuwyd yn cael eu gwneud gan ddysgwyr sydd naill ai'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu ddim yn rhugl, yn dibynnu ar lefel y cymhwyster.


7.10 Dengys Ffigur 29 nad oes tuedd glir dros amser o nifer neu gyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n dechrau cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae, gyda chyfartaledd o tua 30 y cant o ddysgwyr naill ai'n rhugl neu ddim yn rhugl yn y Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn benodol.

**Ffigur 28: Cyfran a nifer y cymwysterau a ddechreuwyd yn ôl lefel gallu dysgwyr yn y Gymraeg, yn ôl lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022)**




Ffynhonnell: Data LLWR (cyfrifon wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf)

**Ffigur 29: Cyfran a nifer y cymwysterau a ddechreuwyd yn ôl lefel gallu dysgwyr yn y Gymraeg, yn ôl blwyddyn (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022)**



Ffynhonnell: Data LLWR (cyfrifon wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf)

7.11 Mae Tabl 9 yn amlygu'r amrywiad yn nifer y cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae yr ymgymerwyd â nhw ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru (yn seiliedig ar ble'r addysgwyd y dysgwyr), gan amlygu tuedd o gronni mwy mewn ardaloedd awdurdodau lleol trefol a mwy poblog, a pheth amrywiad yn y cyfraddau cwblhau cyfartalog ar draws awdurdodau lleol.

**Tabl 9: Nifer y cymwysterau a ddechreuwyd, fesul awdurdod lleol lle'r addysgwyd y dysgwr a lefel cymhwyster (ar gyfer cymwysterau a ddechreuwyd rhwng blynyddoedd calendr 2018 a 2022)**

| | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Cyfanswm | Graddfa cwblhau gyfartalog |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 1,530 | 1,050 | 100 | 310 | 3,000 | 42% |
| Sir Gaerfyrddin | 720 | 1,080 | 50 | 240 | 2,080 | 43% |
| Casnewydd | 820 | 760 | 80 | 260 | 1,940 | 45% |
| Rhondda Cynon Taf | 510 | 690 | 90 | 390 | 1,680 | 40% |
| Abertawe | 430 | 660 | 50 | 220 | 1,370 | 37% |
| Caerffili | 500 | 600 | 50 | 210 | 1,370 | 44% |
| Torfaen | 640 | 530 | 60 | 100 | 1,330 | 45% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 440 | 650 | 40 | 180 | 1,320 | 51% |
| Blaenau Gwent | 470 | 480 | 50 | 70 | 1,070 | 51% |
| Sir Fynwy | 450 | 350 | 30 | 100 | 930 | 42% |
| Bro Morgannwg | 310 | 330 | 50 | 150 | 840 | 38% |
| Gwynedd | 320 | 370 | 60 | 70 | 830 | 40% |
| Castell-Nedd Port Talbot | 250 | 350 | 60 | 150 | 800 | 38% |
| Powys | 210 | 240 | 50 | 70 | 570 | 42% |
| Sir Benfro | 210 | 280 | <10 | 60 | 560 | 52% |
| Ynys Môn | 250 | 210 | 20 | 70 | 540 | 40% |
| Wrecsam | 110 | 170 | <10 | 50 | 340 | 49% |
| Sir Ddinbych | 130 | 150 | <10 | 30 | 330 | 41% |
| Merthyr Tudful | 60 | 140 | 20 | 100 | 320 | 36% |
| Sir Y Fflint | 90 | 150 | 10 | 50 | 310 | 52% |
| Conwy | 110 | 140 | 10 | 20 | 280 | 40% |
| Ceredigion | 40 | 110 | <10 | 40 | 190 | 55% |

Ffynhonnell: Data LLWR (cyfrifon wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf)

7.12 Mae'n werth nodi bod cyfyngiadau data yn golygu na allai dadansoddiad o ddata LLWR roi mewnwelediad i'r holl gwestiynau ymchwil o ddiddordeb. Roedd nifer fawr iawn o gofnodion coll yn golygu nad oedd yn bosibl pennu'n gywir gyfran y dysgwyr a gyflogir ar hyn o bryd yn y sector gofal plant a gwaith chwarae.

## 8. Casgliadau

8.1 Edrychodd ein hymchwil ar gyflwr presennol a dyfodol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, trwy gynnal gwaith maes gydag aelodau o'r gweithlu a chynnal dadansoddiadau a modelu i ddeall gofynion y gweithlu yn y dyfodol o ganlyniad i newidiadau polisi disgwyliedig.

8.2 Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn awgrymu heriau posibl o ran gallu bodloni'r galw cynyddol am weithwyr gofal plant a chwarae, yn bennaf yn deillio o ehangu Dechrau'n Deg. Soniodd aelodau'r gweithlu am heriau amlwg o ran recriwtio a chadw staff, gyda bron i 70 y cant o ymatebwyr yn nodi o leiaf un swydd wag yn eu lleoliadau, gan arwain at effeithiau negyddol ar blant a mwy o bwysau ar gydweithwyr. Mae cyfran sylweddol o ymatebwyr yn ystyried gadael y sector o fewn y 12 mis nesaf, gan nodi cyflog a thâl.

8.3 Mae mater cyflog a thâl annigonol yn thema ganolog, gyda llawer yn teimlo nad yw cyfrifoldebau eu gwaith yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn eu cyflog. Ystyrir bod y cyflog isel, ynghyd â chyfrifoldebau swydd heriol, yn ffactor allweddol yn y cyfraddau trosiant uchel. Mae cyflog hefyd yn cael ei nodi fel rhwystr mawr i gadw a recriwtio staff, yn enwedig y rhai sydd â sgiliau iaith Gymraeg.

8.4 Nodir hefyd faterion yn ymwneud â sicrhau bod gan staff gymwysterau digonol, yn enwedig o safbwynt sicrhau bod myfyrwyr yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol o'u cyrsiau. Er mwyn annog staff presennol i hyfforddi ar gyfer cymwysterau pellach, cynigir cymwysterau a ariennir yn llawn a thâl ychwanegol fel ateb posibl i gymell a galluogi unigolion i ymuno â'r gweithlu.

8.5 Mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwaith bob dydd yn amrywio ymhlith ymatebwyr, ond mynegodd rheolwyr lleoliadau heriau o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg oherwydd cyflog annigonol o'i gymharu â sectorau eraill. Ystyriwyd anawsterau wrth recriwtio a chadw staff Cymraeg eu hiaith fel rhwystr allweddol i gyflawni targedau Iaith Gymraeg.

8.6 Mae'r dadansoddiad hefyd yn amlygu anawsterau o ran gallu recriwtio a chynnal gweithlu amrywiol, gyda rheolwyr yn nodi diffyg staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Nodwyd hefyd mai anaml y mae staff o gefndiroedd amrywiol mewn rolau rheoli. Fel y dangoswyd yn y dadansoddiad o ragamcanion sy'n modelu'r galw yn y dyfodol am leoedd gofal plant a gweithwyr dros y pum mlynedd nesaf, gallai heriau

posibl o ran recriwtio a chadw staff fod yn rhwystr i fodloni'r galw ychwanegol o ganlyniad i ehangu Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, nodir bod ansicrwydd gyda'r dadansoddiad hwn o safbwynt y nifer sy'n manteisio ar Dechrau'n Deg, ac i ba raddau y mae hyn yn disodli'r galw mewn lleoliadau gofal eraill.

8.7 Er gwaethaf yr heriau hyn, tynnodd aelodau'r gweithlu sylw at natur werth chweil gweithio yn y sector gofal plant a chwarae, gan ei fod yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad a llesiant plant.

## Atodiad A: Canllaw pwnc cyfweliad ar gyfer rheolwyr lleoliadau ac ymarferwyr

### Cyflwyniad

1. I ddechrau, allwch chi ddisgrifio mewn ychydig eiriau eich rôl a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd yn y sector gofal plant a chwarae?
2. Pa fath o leoliad ydych chi'n gweithio ynddo?

   Cwestiwn trafod: Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?

   Cwestiwn trafod: Ym mha iaith y mae eich lleoliad yn darparu ei wasanaethau?

   Cwestiwn trafod: Ar gyfer pa grwpiau oedran mae eich lleoliad yn darparu gwasanaethau?

   Cwestiwn trafod: Oeddech chi'n gweithio mewn lleoliadau eraill o'r blaen?

   Cwestiwn trafod: A oes gennych unrhyw swyddi eilaidd (e.e. mewn lleoliadau eraill neu y tu allan i'r sector)?

### Profiad personol o weithio yn y sector

3. Beth yw eich barn ar sut mae'r sector gofal plant a chwarae yn gwneud ar hyn o bryd?

   Cwestiwn trafod: Beth mae'r sector yn ei wneud yn dda yn eich barn chi?

   Cwestiwn trafod: Ble ydych chi'n gweld y gallai fod cyfleoedd?

   Cwestiwn trafod: Beth ydych chi'n meddwl fydd cyflwr y sector ymhen pum mlynedd?

   Cwestiwn trafod: Beth yw'r prif bryderon neu bwysau sy'n wynebu gweithlu'r sector?

   Cwestiwn trafod: Pa heriau ydych chi'n eu profi yn eich gwaith bob dydd?

   Cwestiwn trafod: A oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau a allai wella unrhyw rai o'r materion yr ydych wedi'u codi?
4. Ydych chi wedi cyflawni cymhwyster gofal plant neu waith chwarae (unrhyw beth rhwng Lefel 2 hyd at Lefel 5) yn y pedair blynedd diwethaf?

   Cwestiwn trafod: Pam wnaethoch chi ymgymryd â'r cymhwyster [uchod] a sut oeddech chi yn teimlo am y broses?

Cwestiwn trafod: Ydych chi wedi gallu cwblhau unrhyw hyfforddiant yn eich dewis iaith?

5. A ydych yn ystyried ennill unrhyw gymwysterau ychwanegol? Pam? Neu pam ddim?

6. Sut byddech chi'n disgrifio eich sgiliau Cymraeg a sut ydych chi'n defnyddio'ch sgiliau yn eich swydd?

   Cwestiwn trafod: Pa mor hyderus ydych chi i ddefnyddio eich sgiliau Cymraeg? A oes unrhyw beth a allai gynyddu eich hyder?

7. Pa mor dda ydych chi'n teimlo mae eich cyflog a buddiannau yn adlewyrchu eich sgiliau, eich cymwysterau a'ch cyfrifoldebau o ddydd i ddydd yn y gwaith? Peidiwch â theimlo rheidrwydd i rannu unrhyw wybodaeth bersonol ac rydych yn rhydd i hepgor unrhyw gwestiwn.

   Cwestiwn trafod: A oes gan eich lleoliad raddfeydd cyflog neu raddio cyflog?

   Cwestiwn trafod: I ba raddau mae hyd y gwasanaeth neu lefel eich cymhwyster yn effeithio ar gyflog?

   Cwestiwn trafod: A yw eich lleoliad yn darparu unrhyw fuddion eraill?

8. Sut ydych chi'n gweld eich dyfodol yn y sector? Sylwch na fydd eich enw a'ch ymateb yn cael eu rhannu ag unrhyw un.

   Cwestiwn trafod: Ydych chi'n gweld eich hun yn gweithio yn y sector ymhen 12 mis?

   Cwestiwn trafod: Ydych chi'n gweld eich hun yn symud i gyfle newydd o fewn y sector?

**Rheolwyr yn unig: Profiad o redeg lleoliad**

9. Mae'r set nesaf hon o gwestiynau yn ymwneud â recriwtio a chadw staff – a ydych chi'n cyflogi unrhyw un yn eich lleoliad gofal plant ar hyn o bryd?

   a. A fyddech chi'n ystyried recriwtio cynorthwyydd gwarchod plant? Pam, neu pam na fuasech yn gwneud hynny?

10. Allwch chi ddisgrifio sut mae recriwtio ar gyfer staff newydd wedi bod dros y 12 mis diwethaf?

Cwestiwn trafod: A ydych chi wedi gallu recriwtio nifer digonol o staff cymwys? (e.e. Lefel 3)

Cwestiwn trafod: Pa mor hawdd neu anodd yw hi i recriwtio staff Cymraeg eu hiaith?

Cwestiwn trafod: Ydych chi wedi profi unrhyw heriau eraill yn ystod recriwtio?

Cwestiwn trafod: Ydych chi wedi gwneud unrhyw beth i hybu recriwtio yn eich lleoliad?

11. Beth yw eich profiad o gadw staff yn ystod y 12 mis diwethaf?

    Cwestiwn trafod: Sut ydych chi'n ceisio ysgogi staff i aros yn eu swyddi?

    Cwestiwn trafod: Pam ydych chi'n meddwl bod staff yn gadael eu swyddi ac i ble maen nhw'n mynd?

12. Sut mae eich lleoliad yn mynd ati i recriwtio ystod amrywiol o staff o ran nodweddion megis cefndir ethnig, rhyw ac anabledd?

    Cwestiwn trafod: Os nad yw, a oes unrhyw rwystrau i weithredu hyn?

13. Sut mae eich lleoliad yn cael ei ariannu ar hyn o bryd a sut mae'r ffynonellau ariannu hyn yn effeithio ar redeg eich lleoliad?

    Cwestiwn trafod: A ydych yn derbyn cyllid naill ai drwy ffioedd a delir gan rieni, lleoedd a ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant neu Dechrau'n Deg, neu ffynonellau eraill?

    Cwestiwn trafod: A oes gennych chi unrhyw syniadau neu atebion i'r materion rydych chi wedi'u codi?

14. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gofyn am gyflwyniadau blynyddol o Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) gan eich lleoliad, sy'n cynnwys gwybodaeth am allu iaith Gymraeg eich staff. Sut ydych chi'n darganfod ac yn cadw golwg ar allu Cymraeg eich staff?

**Ôl-Drafodaeth**

15. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod nad ydym wedi eich holi amdanynt?

## Atodiad B: Canllaw pwnc grŵp ffocws ar gyfer rheolwyr lleoliadau ac ymarferwyr

### Grŵp Ffocws Ymarferwyr

*Ymgynefino*

1. Allwch chi gyflwyno'ch hun yn fyr trwy ddweud eich enw wrthym a pham eich bod wedi dod i'r drafodaeth heddiw?

   Cwestiwn trafod: Allwch chi ddisgrifio eich rôl yn y sector gofal plant a chwarae?

   Cwestiwn trafod: Pa fath o leoliad ydych chi'n gweithio ynddo? Ers pryd ydych chi wedi gweithio yno?

   Cwestiwn trafod: Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?

   Cwestiwn trafod: Ym mha iaith mae eich lleoliad yn darparu ei wasanaethau?

   Cwestiwn trafod: Ar gyfer pa grwpiau oedran mae eich lleoliad yn darparu gwasanaethau?

**Profiad personol o weithio yn y sector (60 munud)**

2. Sut fyddech chi’n dweud bod y sector gofal plant a chwarae yn gwneud ar hyn o bryd?

   Cwestiwn trafod: Beth ydych chi'n meddwl y mae'r sector yn ei wneud yn dda?

   Cwestiwn trafod: Ble’r ydych chi'n gweld y gallai fod cyfleoedd?

   Cwestiwn trafod: Beth ydych chi’n meddwl fydd cyflwr y sector ymhen pum mlynedd?

   Cwestiwn trafod: Beth yw’r prif bryderon neu bwysau sy’n wynebu gweithlu’r sector?

   Cwestiwn trafod: Pa heriau ydych chi'n eu profi yn eich gwaith bob dydd?

   Cwestiwn trafod: A oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau a allai wella unrhyw rai o’r materion yr ydych wedi’u codi?

3. A oes unrhyw un yma wedi cyflawni cymhwyster gofal plant neu waith chwarae yn y pedair blynedd diwethaf? (unrhyw beth rhwng Lefel 2 hyd at Lefel 5)

   Cwestiwn trafod: Pa gymhwyster neu gymwysterau wnaethoch chi eu dilyn yn benodol?

Cwestiwn trafod: Pam wnaethoch chi ymgymryd â'r cymhwyster hwn a sut oeddech chi yn teimlo am y broses?

Cwestiwn trafod: A ydych yn ystyried ceisio ennill unrhyw gymwysterau ychwanegol?

Cwestiwn trafod: Unrhyw reswm pam na wnaethoch chi gymhwyster?

4. Sut byddech chi'n disgrifio eich sgiliau Cymraeg a pha mor hyderus ydych chi i ddefnyddio'ch sgiliau Cymraeg yn y gwaith?

   Cwestiwn trafod: A oes unrhyw beth a allai gynyddu eich hyder?

5. Yn eich barn chi, pa mor dda mae'r tâl a buddiannau yn y sector gofal plant a chwarae yn adlewyrchu sgiliau, cymwysterau a chyfrifoldebau dydd i ddydd ymarferwyr gofal plant a chwarae? Peidiwch â theimlo rheidrwydd i rannu unrhyw wybodaeth bersonol.

*Ôl-drafodaeth*

6. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod?

   Rydym bellach wedi cyrraedd diwedd ein Grŵp Ffocws. Diolch i chi am gymryd yr amser i siarad â ni heddiw.

**Grŵp Ffocws Rheolwyr**

*Ymgynefino*

1. Allwch chi gyflwyno'ch hun yn fyr trwy ddweud eich enw wrthym a pham eich bod wedi dod i'r drafodaeth heddiw?

   Cwestiwn trafod: Allwch chi ddisgrifio eich rôl yn y sector gofal plant a chwarae?

   Cwestiwn trafod: Pa fath o leoliad ydych chi'n gweithio ynddo? Ers pryd ydych chi wedi gweithio yno?

   Cwestiwn trafod: Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?

   Cwestiwn trafod: Ym mha iaith mae eich lleoliad yn darparu ei wasanaethau?

   Cwestiwn trafod: Ar gyfer pa grwpiau oedran mae eich lleoliad yn darparu gwasanaethau?

**Profiad personol o weithio yn y sector**

2. Sut fyddech chi’n dweud bod y sector gofal plant a chwarae yn gwneud ar hyn o bryd? Pam?

   Cwestiwn trafod: Beth ydych chi'n meddwl y mae'r sector yn ei wneud yn dda?

   Cwestiwn trafod: Ble ydych chi'n gweld y gallai fod cyfleoedd?

   Cwestiwn trafod: Beth ydych chi’n meddwl fydd cyflwr y sector ymhen pum mlynedd?

   Cwestiwn trafod: Beth yw’r prif bryderon neu bwysau sy’n wynebu gweithlu’r sector?

   Cwestiwn trafod: Pa heriau ydych chi'n eu profi yn eich gwaith bob dydd?

   Cwestiwn trafod: A oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau a allai wella unrhyw rai o’r materion yr ydych wedi’u codi?

3. A oes unrhyw un yma wedi cyflawni cymhwyster gofal plant neu waith chwarae yn y pedair blynedd diwethaf? (unrhyw beth rhwng Lefel 2 hyd at Lefel 5)

   Cwestiwn trafod: Pa gymhwyster neu gymwysterau wnaethoch chi eu dilyn yn benodol?

   Cwestiwn trafod: Pam wnaethoch chi ymgymryd â'r cymhwyster hwn a sut oeddech chi yn teimlo am y broses?

   Cwestiwn trafod: A ydych yn ystyried ceisio ennill unrhyw gymwysterau ychwanegol?

   Cwestiwn trafod: Unrhyw reswm pam na wnaethoch chi wneud cymhwyster?

**Profiad o redeg lleoliad**

4. Sut mae recriwtio ar gyfer staff newydd wedi bod dros y 12 mis diwethaf?

   Cwestiwn trafod: A ydych wedi gallu recriwtio nifer digonol o staff cymwys? (e.e. Lefel 3)

   Cwestiwn trafod: Pa mor hawdd neu anodd yw hi i recriwtio staff Cymraeg eu hiaith?

   Cwestiwn trafod: Ydych chi wedi profi unrhyw heriau eraill yn ystod recriwtio?

Cwestiwn trafod: Ydych chi wedi gwneud unrhyw beth i hybu recriwtio yn eich lleoliad?

Cwestiwn trafod: Sut mae eich lleoliad yn mynd ati i recriwtio ystod amrywiol o staff o ran nodweddion megis cefndir ethnig, rhyw ac anabledd? Os nad yw, a oes unrhyw rwystrau i weithredu hyn?

5. Beth yw eich profiad o gadw staff yn ystod y 12 mis diwethaf?

   Cwestiwn trafod: Sut ydych chi'n ceisio ysgogi staff i aros yn eu swyddi?

   Cwestiwn trafod: Pam ydych chi'n meddwl bod staff yn gadael eu swyddi ac i ble maen nhw'n mynd?

6. Sut mae eich lleoliad yn cael ei ariannu ar hyn o bryd a sut mae'r ffynonellau ariannu hyn yn effeithio ar y ffordd mae eich lleoliad yn cael ei redeg?

   Cwestiwn trafod: A ydych yn derbyn cyllid naill ai drwy ffioedd a delir gan rieni, lleoedd a ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant neu Dechrau'n Deg, neu ffynonellau eraill?

   Cwestiwn trafod: A oes gennych unrhyw syniadau neu atebion i'r materion a godwyd gan y grŵp?

**Ôl-drafodaeth**

7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod?

## Atodiad C: Holiadur yr arolwg

### Gofal plant a Gwaith chwarae – Arolwg ymarferwyr

*Darpariaeth gyffredinol*

1. Beth yw eich rôl bersonol yn y lleoliad?

   Atebwch yn seiliedig ar eich prif weithle. Os ydych yn warchodwr plant heb staff ychwanegol, dewiswch *"Ymarferydd gofal plant".*

   - Rheolwr lleoliad
   - Ymarferydd gofal plant
   - Ymarferydd gwaith chwarae
   - Arall

2. I ba gategori o ddarparwr ydydch chi'n gweithio?

   *Atebwch yn seiliedig ar eich prif weithle.*

   - Darparwr trydydd sector
   - Darparwr awdurdod lleol
   - Darparwr sector preifat
   - Arall

3. Ym mha fath o leoliad ydych chi'n gweithio?

   *Atebwch yn seiliedig ar eich prif weithle.*

   - Gwarchod plant
   - Creche
   - Gofal dydd llawn
   - Darpariaeth chwarae mynediad agored
   - Gofal y tu allan i oriau ysgol
   - Gofal dydd sesiynol.
   - Arall

4. Ym mha awdurdod lleol mae eich lleoliad?

*Os yw'r lleoliad rydych yn gweithio ynddo yn darparu gwasanaethau mewn sawl ardal, dewiswch yr awdurdod lleol rydych yn gweithio ynddo'n bersonol neu yn rheoli ynddo y rhan fwyaf o'r amser.*

- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Caerdydd
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Ynys Môn
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Castell-nedd Port Talbot
- Casnewydd
- Sir Benfro
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wrecsam.

5. Pa grwpiau oed sy'n cael mynediad i wasanaethau eich lleoliad?

   *Ticiwch bob un sy'n berthnasol.*

- Plant dan 1
- 1 oed
- 2 oed
- 3-4 oed
- 5-12 oed
- Arall

6. Beth yw prif iaith darpariaeth gwasanaethau yn eich lleoliad?
   - Cymraeg
   - Saesneg
   - Dwyieithog
7. A oes gennych unrhyw swydd ychwanegol ar wahân i'ch prif waith?
   - Oes, yn y sector gofal plant a gwaith chwarae
   - Oes, mewn sector gwahanol.
   - Na
   - Well gen i beidio â dweud
8. Ym mha fath o leoliad mae eich swydd eilaidd?
   - Gofal plant (gan gynnwys gofal dydd llawn a sesiynol, creches)
   - Gwarchod plant
   - Gwaith chwarae a chlybiau y tu allan i oriau ysgol
   - Gwaith ieuenctid
   - Arall

*Amdanoch chi*

9. Sut fyddech chi yn disgrifio eich rhywedd?
10. Faint yw eich oed?
    - 16-25
    - 26-35

- 36-45
- 46-55
- 56-65
- 66+

11. Sut byddech chi’n disgrifio eich sgiliau Cymraeg?
    - Rhugl yn y Gymraeg
    - Siarad cryn dipyn o Gymraeg
    - Ddim yn siarad llawer o Gymraeg neu ddim Cymraeg.
12. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio eich sgiliau Cymraeg yn y gwaith fel ymarferydd gofal plant neu chwarae?
    - Dyddiol
    - Sawl gwaith yr wythnos
    - Sawl gwaith y mis
    - Unwaith y mis
    - Sawl gwaith y flwyddyn
    - Llai nag unwaith y flwyddyn neu byth
13. Ym mha un o’r bandiau cyflog isod y mae eich cyflog chi?

    *Cyfeirir at eich prif swydd yn unig yma.*
    - £10.91 neu fwy yr awr (uwchben y Cyflog Byw Gwirioneddol)
    - £10.90 yr awr (Cyflog Byw Gwirioneddol)
    - £10.42 yr awr neu uwch (Cyflog Byw Cenedlaethol, 23+ oed)
    - £10.18 yr awr neu uwch (Isafswm Cyflog Cenedlaethol, 21-22 oed)
    - £7.49 yr awr neu uwch (Isafswm Cyflog Cenedlaethol, 18-20 oed)
    - Islaw'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer fy oedran.
    - Well gen i beidio â dweud
    - Arall

14. Beth yw eich rhyw?

    *Bydd cwestiwn ynghylch hunaniaeth rhywedd yn dilyn.*

    - Benyw
    - Gwryw
    - Well gen i beidio â dweud

15. Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un fath â'ch rhyw a gofrestrwyd adeg eich geni?

    *Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol.*

    - Ydy
    - Nac ydy
    - Well gen i beidio â dweud

16. Beth yw eich grŵp ethnig?

    *Diffinnir y grwpiau yn ôl dosbarthiad Cyfrifad y DU mwyaf diweddar.*

    - Gwyn
    - Grwpiau ethnig cymysg neu luosog
    - Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig
    - Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
    - Grŵp ethnig arall
    - Well gen i beidio â dweud

17. Gwyn - manylwch.

    - Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogleddol neu Brydeinig
    - Gwyddelig
    - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
    - Roma
    - Arall

18. Grwpiau ethnig Cymysg neu luosog - manylwch.

- Gwyn a Du Caribïaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Arall

19. Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig - manylwch.
    - Indiaidd
    - Pacistanaidd
    - Bangladeshi
    - Tseiniaidd
    - Arall
20. Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd - manylwch.
    - Caribïaidd
    - Cefndir Affricanaidd
    - Arall
21. Grŵp ethnig - manylwch.
    - Arab
    - Arall
22. A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddynt bara 12 mis neu fwy?
    - Oes
    - Na
    - Well gen i beidio â dweud
23. A yw unrhyw rai o'ch cyflyrau neu salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?
    - Oes, llawer
    - Oes, ychydig
    - Dim o gwbl

- Well gen i beidio â dweud

**Cymwysterau**

24. Beth yw eich cymhwyster uchaf?

| | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Arall | Dim |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal plant | | | | | | |
| Gwaith chwarae | | | | | | |

25. A ydych chi ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer unrhyw gymhwyster ychwanegol mewn gofal plant neu waith chwarae neu a ydych yn bwriadu astudio ar gyfer cymhwyster yn y 12 mis nesaf?

- Ydw, cymhwyster gofal plant
- Ydw, cymhwyster gwaith chwarae
- Heb benderfynu
- Dim
- Arall

26. Ar gyfer pa lefel cymhwyster ydych chi'n astudio ar hyn o bryd neu'n bwriadu astudio?

- Lefel 2
- Lefel 3
- Lefel 4
- Lefel 5
- Arall

**Boddhad gwaith personol yn y sector**

27. Pa mor fodlon ydych chi'n bersonol â'ch gwaith presennol yn y sector?

- Anfodlon iawn
- Anfodlon

- Niwtral
- Bodlon
- Bodlon iawn

28. Pam ydych chi'n bersonol yn anfodlon â'ch gwaith presennol yn y sector?

    *Ticiwch bob un sy'n berthnasol.*

    - Teimladau o bwysau a chyfrifoldeb
    - Cyflog a thâl
    - Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
    - Diffyg cyfleoedd dilyniant
    - Arweiniad neu gefnogaeth annigonol gan reolwyr
    - Mae cymwysterau ar gyfer dilyniant yn anodd eu cyflawni
    - Profiad o wahaniaethu, aflonyddu a/neu fwlio yn y gwaith
    - Arall

29. A ydych yn disgwyl i unrhyw heriau o bolisi gofal plant a chwarae presennol neu yn y dyfodol effeithio ar eich rôl yn y sector?

    *Er enghraifft, gallai hyn gynnwys Cynnig Gofal Plant Cymru neu Ehangu Dechrau'n Deg, ymhlith eraill.*

30. Yn ystod y 12 mis nesaf, a ydych chi'n ystyried un o'r canlynol?

    - Gadael y sector
    - Symud i leoliad gofal plant neu chwarae gwahanol
    - Cymryd ail swydd
    - Ceisio dyrchafiad
    - Ymddeol
    - Dim un o'r opsiynau hyn
    - Arall

31. Beth yw eich **prif reswm** dros ystyried gadael y sector?

    - Teimladau o bwysau a chyfrifoldeb

- Cyflog a thâl
- Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Diffyg cyfleoedd dilyniant
- Arweiniad neu gefnogaeth annigonol gan reolwyr
- Mae cymwysterau ar gyfer dilyniant yn anodd eu cyflawni
- Profiad o wahaniaethu, aflonyddu a/neu fwlio yn y gwaith
- Arall

**Nodweddion y gweithlu yn eich lleoliad**

32. Faint o **staff amser llawn** y mae eich lleoliad yn eu cyflogi?

33. Dim ond aelodau staff sy'n rhyngweithio â phlant fel rhan o'u rôl y dylid eu cynnwys. Peidiwch â chyfrif aelodau staff sydd mewn swyddi gweinyddol neu lanhau.

34. Faint o **staff rhan-amser** y mae eich lleoliad yn eu cyflogi? Dim ond aelodau staff sy'n rhyngweithio â phlant fel rhan o'u rôl y dylid eu cynnwys. Peidiwch â chyfrif aelodau staff sydd mewn swyddi gweinyddol neu lanhau.

35. A ydych yn monitro cyfleoedd cyfartal o gwbl?

    *E.e., data ar nifer y staff gwrywaidd/benywaidd yn eich lleoliad ayb.*

    - Ydym
    - Nac ydym

36. Yn ôl eich data Cyfle Cyfartal, faint o'ch staff sy'n fenywod?

    *Hepgorwch y cwestiwn os nad ydych yn gwybod.*

37. Yn ôl eich data Cyfle Cyfartal, faint o'ch staff sy'n ddynion?

    *Hepgorwch y cwestiwn os nad ydych yn gwybod.*

38. Yn ôl eich data Cyfle Cyfartal, faint o'ch staff sy'n nodi hunaniaeth arall (e.e., anneuaidd, dewis peidio â dweud, arall)?

    *Hepgorwch y cwestiwn os nad ydych yn gwybod.*

39. Yn ôl eich data Cyfle Cyfartal, faint o'ch staff sydd o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig?

*Hepgorwch y cwestiwn os nad ydych yn gwybod.*

40. Yn ôl eich data Cyfle Cyfartal, faint o'ch staff sy'n anabl?

    *Hepgorwch y cwestiwn os nad ydych yn gwybod.*

41. A ydych yn casglu gwybodaeth am allu Cymraeg eich staff?

    - Ydym
    - Nac ydym

42. Faint o'ch staff sy'n rhugl yn y Gymraeg?
43. Faint o'ch staff sy'n siarad tipyn o Gymraeg?
44. Faint o'ch staff sy'n defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn eu gwaith bob dydd?

**Strwythurau a heriau yn y sector**

45. Faint o swyddi gwag sydd gennych **ar hyn o bryd**?

    *Cyfrwch nifer y swyddi amser llawn (e.e. cyfrif dwy swydd 50% fel"1")*

46. Faint o swyddi gwag fu gennych **yn y 12 mis diwethaf?**

    *Cyfrwch nifer y swyddi amser llawn (e.e. cyfrif dwy swydd 50% fel"1")*

47. Faint o staff sydd wedi gadael eich lleoliad yn y 24 mis diwethaf?

    *Dylai hyn gynnwys staff yn newid i leoliadau eraill, sectorau eraill, neu'n gadael gwaith yn gyfan gwbl (e.e. ymddeoliad).*

48. Yn eich profiad chi, a oes unrhyw un o'r canlynol yn rhwystr i recriwtio a/neu gadw staff mewn gofal plant a chwarae?

    - Oriau gwaith (rhy hir)
    - Oriau gwaith (rhy fyr)
    - Cyflog/Tâl
    - Gofynion cymhwyster (rhy uchel)
    - Cystadleuaeth gan sectorau eraill
    - Arall

49. A fyddech cystal ag amlinellu'n gryno unrhyw broblemau eraill a wynebwch **yn gyffredinol** wrth recriwtio staff ar gyfer eich lleoliad**.**

50. A ydych yn wynebu unrhyw heriau ychwanegol wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg?

- Amherthnasol (Dim problemau na heriau)
- Amherthnasol (Darpariaeth cyfrwng Saesneg yn unig)
- Ydym

51. A fyddech cystal ag amlinellu'n fras y problemau a wynebwch yn eich lleoliad wrth recriwtio **staff sy'n siarad Cymraeg.**

52. A ydych yn monitro cyfle cyfartal ar gyfer ymgeiswyr i'ch lleoliad?

- Ydym
- Na

53. Pa gyfran o ymgeiswyr am swyddi a gafwyd gan ymarferwyr o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig yn y 24 mis diwethaf?

*Nodwch mewn %.*

## Atodiad D: Rhagdybiaethau modelu

### Rhagdybiaethau cyffredinol

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu paramedrau polisi allweddol y gall defnyddwyr eu dewis o fewn y model, a'r hyn y mae'r paramedr yn ei olygu o fewn y rhagamcanion.

| Rhagdybiaeth | Opsiynau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Cymhareb plentyn i le a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau gweithlu** | • Hanesyddol (ar sail plant ar y llyfrau), yn amrywio o amcangyfrif o 3 i 18 o leoedd fesul plentyn yn dibynnu ar y math o leoliad.<br>• Delfrydol, yn seiliedig ar Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yn amrywio o amcangyfrif o 4 i 13 o leoedd fesul plentyn yn dibynnu ar y math o leoliad. | Mae'r model yn defnyddio rhagamcanion o'r galw am leoedd gofal plant i ragamcanu gofynion y gweithlu gan ddefnyddio cymhareb plentyn i le. Mae'r paramedr hwn yn galluogi'r defnyddiwr i ddewis a yw'r gymhareb hon yn seiliedig ar ddata hanesyddol ar blentyn fesul lle yng Nghymru (Hanesyddol) neu gymhareb sy'n seiliedig ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer cymarebau plant i staff (Delfrydol).<br>Bydd rhagamcanion y gweithlu yn newid yn dibynnu ar ba opsiwn y mae'r defnyddiwr yn ei ddewis. |
| **Swyddi gwag gofal plant a gwaith chwarae wedi'u llenwi** | • Bob swydd wag wedi’i llenwi<br>• Graddfa swyddi gwag yn unol â phob sector arall<br>• Dim newid o ran swyddi gwag | Mae gan ddefnyddwyr dri opsiwn i fodelu swyddi gwag yn y sector gofal plant a chwarae. Os dewisir “pob swydd wag wedi'i llenwi”, bydd y model yn cymryd y bydd yr holl swyddi sy'n wag ar hyn o bryd yn cael eu llenwi o fewn y rhagamcanion. Bydd yr ail opsiwn yn alinio’r gyfradd swyddi gwag ar gyfer staff gofal plant a chwarae â’r gyfradd lleoedd gwag amcangyfrifedig ar draws pob sector. Mae “dim newid mewn swyddi gwag” yn rhagdybio bod y gyfradd swyddi gwag ar hyn o bryd yn aros yr un fath ar draws y rhagamcanion. |
| **Rhestrau aros wedi'u** | • Ydynt | Mae dewis ydynt neu nac ydynt yn newid p'un a yw'r galw a ragwelir yn |

| | | |
|---|---|---|
| **cynnwys o fewn y galw a ragwelir (lleoedd)** | • Nac ydynt | cynnwys rhestrau aros presennol ar gyfer y galw am ofal plant ai peidio. Amcangyfrifir rhestrau aros yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata SASS 2023 ac amcangyfrifon a gymerwyd o [Retention and Return: Delivering the expansion of early years entitlement in England.]() |

## Rhagdybiaethau defnyddwyr

Mae'r tabl canlynol yn rhestru rhagdybiaethau defnyddwyr eraill y gall defnyddwyr eu newid, yn ogystal â'r ffynhonnell a ddefnyddir i lywio'r rhagdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn feintiol ac yn sail i'r rhagamcanion o'r galw a'r goblygiadau i'r gweithlu. Mae'r tab rhagdybiaethau cyffredinol hefyd yn cynnwys celloedd sy'n gyfrifiadau yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a fewnbynnwyd gan y defnyddiwr; nid yw'r rhain wedi'u rhestru ac ni ddylid eu newid.

| Rhagdybiaeth/mewnbwn | Gwerth | Disgrifiad | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|
| Cyfradd ymateb Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) | 91% | Canran amcangyfrifedig y darparwyr gofal plant a ymatebodd i'r arolwg Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS). | Amcangyfrif Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). |
| Nifer y staff unigol sydd yn y gwasanaeth ar hyn o bryd (SASS 2023) | Yn seiliedig ar y math o leoliad. | Nifer y staff sy'n gweithio ar draws pob math o leoliad, fel yr adroddwyd yn yr SASS. | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |
| Nifer y staff unigol sydd yn y gwasanaeth ar hyn o bryd (amcangyfrif 2023) | Yn seiliedig ar y math o leoliad | Nifer y staff yr amcangyfrifir eu bod yn gweithio ym mhob math o leoliad, wedi'i | Wedi'i gyfrifo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfrifo ar sail adroddiadau SASS 2023 a'r gyfradd ymateb. | |
| Cymhareb plentyn i le delfrydol | Yn seiliedig ar y math o leoliad | Mae'r gymhareb plentyn-lle delfrydol wedi'i chymryd o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, sy'n nodi'r gymhareb plentyn-staff gofynnol a ddefnyddir ar gyfer pob math o leoliad. | Safonau Gofynnol Cenedlaethol |
| Cymhwyster uchaf gweithwyr (ar gyfer pob math o leoliad) | Canran, yn seiliedig ar y math o leoliad | Canran y staff sydd wedi ennill pob lefel o gymhwyster (h.y., Lefel 2, Lefel 3, Arall) fel eu cymhwyster uchaf, wedi'i ddadansoddi yn ôl y math o leoliad. | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |
| Dosbarthiad lleoedd awdurdodau lleol | Canran, yn seiliedig ar awdurdod lleol a math o leoliad | Canran y lleoedd o fewn pob math o leoliad sydd ym mhob awdurdod lleol. | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |
| Cyfanswm plant mewn gofal plant yn ôl y math o leoliad a grŵp oedran (SASS 2023) | Nifer y plant, yn seiliedig ar y math o leoliad | Cyfanswm y plant a gofrestrwyd ("ar y llyfrau") ym mhob math o leoliad gofal plant. | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y plant mewn gofal plant (amcangyfrif 2023) | Nifer y plant, yn seiliedig ar y math o leoliad | Amcangyfrif o nifer y plant ym mhob math o leoliad yn seiliedig ar adroddiadau o'r SASS, gan ystyried y gyfradd ymateb. | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |
| Dosbarthiad plant ar y llyfrau yn ôl grŵp oedran a math o leoliad | Canran, yn seiliedig ar grŵp oedran a math o leoliad | Canran cyfanswm y plant mewn lleoliad o bob grŵp oedran. | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |
| Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl grŵp oedran (wedi'i fynegeio i 2023) | Canran, yn seiliedig ar grŵp oedran a blwyddyn | Rhagamcaniad poblogaeth o 2024-2028[18], yn ôl grŵp oedran wedi'i fynegeio i 2023. | Amcangyfrifon Alma, yn seiliedig ar ragamcanion cenedlaethol 2020 |
| Nifer y rolau gofal plant a chwarae sy'n wag ar hyn o bryd | Nifer y staff, yn seiliedig ar y math o leoliad | Nifer y rolau ar draws pob math o leoliad sy'n wag ar hyn o bryd | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |
| Lefelau diweithdra ffrithiannol ym mhob sector | 3% | Amcangyfrif o ddiweithdra ffrithiannol, a ddefnyddir fel meincnod ar gyfer cyfraddau swyddi gwag yn y sector gofal plant. | Diweithdra ffrithiannol yn deillio o ddata cyflogaeth SYG (2023) ar gyfer holl sectorau'r DU, wedi'i gyfrifo fel nifer y swyddi gwag wedi'i rannu â nifer y swyddi. |
| Dim newid mewn swyddi gwag | Sero i bob math o leoliad | Bydd y gyfradd swyddi gwag o fewn y sector | Dylid gosod y mewnbwn hwn ar sero. |

[18] Amcanestyniadau poblogaeth SYG ar gael ar: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn ac oedran, Sail 2020 (Llywodraeth Cymru)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gofal plant a chwarae yn parhau'n gyson â'r gyfradd swyddi gwag presennol. | |
| Rhestr aros dybiedig fesul gwarchodwr plant | 3 | Amcangyfrif o nifer y plant sy'n aros am le i bob gwarchodwr plant | Cafwyd yr amcangyfrif o Retention and return: Delivering the expansion of early years entitlement in England |
| Capasiti cyfartalog tybiedig i ehangu lleoedd | 12% | Canran sy'n cynrychioli'r cynnydd tybiedig mewn capasiti ar gyfer pob lleoliad gofal plant, heb gynnwys gwarchodwyr plant. | Cafwyd yr amcangyfrif o Retention and return: Delivering the expansion of early years entitlement in England |

**Rhagdybiaethau Iaith Gymraeg**

Ni chynhwyswyd unrhyw baramedrau polisi allweddol yn ymwneud â Rhagdybiaethau Iaith Gymraeg yn y model. Mae'r holl fewnbynnau a rhagdybiaethau y gall defnyddwyr eu newid yn ragdybiaethau set ddata.

*Rhagdybiaethau defnyddwyr*

| Rhagdybiaeth/mewnbwn | Gwerth | Disgrifiad | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Cymraeg staff | Canran, yn seiliedig ar y math o leoliad | Cyfran y staff sy'n rhugl yn y Gymraeg, yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, ac sy'n gallu siarad | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ychydig neu ddim Cymraeg, wedi'i ddadansoddi yn ôl y math o leoliad. | |
| Plant yn ôl iaith y gwasanaeth a ddarperir | Canran, yn seiliedig ar y math o leoliad | Cyfran y plant sy'n mynychu gofal plant lle darperir gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn gwbl ddwyieithog, Saesneg gyda pheth Cymraeg, neu Saesneg yn unig. | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |
| Targedau darpariaeth cyfrwng Cymraeg awdurdodau lleol | Canran, yn seiliedig ar y flwyddyn ac awdurdod lleol | Targed pob awdurdod lleol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, fesul awdurdod lleol. Mae pob awdurdod lleol yn cyfrifo eu targedau ar sail wahanol, ac nid oes rhywfaint o wybodaeth am rai awdurdodau lleol ar gael. | Targedau darpariaeth cyfrwng Cymraeg CSGA awdurdodau lleol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar.[19,20] |

[19] Am gefndir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, cyfeiriwch at Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gweler: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Llywodraeth Cymru)
[20] Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Gweler: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2032 (Llywodraeth Cymru)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfran y plant sy’n derbyn gofal mewn lleoliadau â darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Canran, yn seiliedig ar awdurdod lleol | Cyfran y plant sy’n derbyn gofal mewn lleoliad sy’n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | SASS (2023) |

**Rhagdybiaethau – ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg**

*Prif baramedrau polisi*

| **Enw’r paramedr** | **Opsiynau** | **Beth mae hyn yn ei ganiatáu?** |
|---|---|---|
| Ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn weithredol | • Ie<br>• Na | Mae hyn yn galluogi'r defnyddiwr i ddewis a yw ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn cael ei weithredu o fewn y model ai peidio. Os gweithredir ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg, bydd mwy o alw am leoedd gofal plant. |
| Lefel cymhwyster gofynnol ar gyfer ymarferwyr | • Lefel 2<br>• Lefel 3<br>• Lefel 4<br>• Lefel 5 | Mae'r newid hwn yn galluogi'r defnyddiwr i ddewis y lefel cymhwyster gofynnol ar gyfer ymarferwyr sy'n cynnig gofal plant fel rhan o Dechrau'n Deg. Er enghraifft, os bydd y defnyddiwr yn dewis Lefel 4, dim ond ymarferwyr â chymhwyster Lefel 4 neu uwch fydd yn gallu cynnig Lleoedd Dechrau’n Deg. |

*Rhagdybiaethau set ddata*

| **Rhagdybiaeth/mewnbwn** | **Gwerth** | **Disgrifiad** | **Ffynhonnell ddata** |
|---|---|---|---|
| Maint y boblogaeth o blant[21] | Cyfrif pennau, yn seiliedig ar flwyddyn | Nifer y plant ym mhob grŵp oedran, wedi'i ragamcanu tan 2028. | Amcangyfrifon Alma, yn seiliedig ar ragamcanion cenedlaethol SYG 2020 |
| Cyfran o'r boblogaeth o blant y cynigir lleoedd iddynt drwy Dechrau'n Deg | Canran | Y gyfran o boblogaeth pob grŵp oedran sy'n gymwys ar gyfer lleoedd drwy Dechrau'n Deg. | Mewnbwn defnyddwyr |
| Y ganran sy'n manteisio ar y ddarpariaeth (cyfran y rhai cymwys sy'n cymryd rhan yn Dechrau'n Deg) | 87% | Cymerir bod 87 y cant o blant cymwys ym mhob grŵp oedran yn manteisio ar y cynnig Dechrau'n Deg. | Rhagdybiaethau ar gyfer plant 2 oed yn seiliedig ar y nifer yn 2022 fel yr adroddwyd yn Ystadegau LIC i Dechrau'n Deg. |
| Canran dadleoli (Canran y rhai sy'n manteisio ar FS2 a oedd eisoes yn defnyddio gofal plant hunan-ariannu) | 20% | Rhagdybio bod 20 y cant o blant ym mhob grŵp oedran sy'n debygol o fanteisio ar Dechrau'n Deg eisoes yn defnyddio gofal plant hunan-ariannu. | Amcangyfrif gorau Alma Economics. Gall Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r mewnbwn hwn pe bai data newydd yn dod i'r amlwg. |

[21] Amcanestyniadau poblogaeth SYG ar gael ar: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn ac oedran, Sail 2020 (Llywodraeth Cymru)

| Dosbarthiad tybiedig lleoedd Dechrau'n Deg | Canran | Dosbarthiad tybiedig lleoedd Dechrau'n Deg yn ôl y math o leoliad. | Dadansoddiad Alma Economics o SASS (2023) |
|---|---|---|---|